# Agenda - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 14 Chwefror 2018

Amser: 09.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Bethan Davies**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6372

SeneddCyllid@cynulliad.cymru

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.00)

## 2 Papur(au) i'w nodi

(09.00) (Tudalennau 1 - 4)

**2.1 PTN1 - Llythyr gan Awdurdod Cyllid Cymru - Teitlau tir trawsffiniol ac ad-daliadau i drethdalwyr gan ACC - 30 Ionawr 2018**

(Tudalennau 5 - 8)

**2.2 PTN2 - Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau - Bil Ombwdsom Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) - 8 Chwefror 2018**

(Tudalennau 9 - 24)

**2.3 PTN3 - Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol - Bil Ombwdsom Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) - 30 Ionawr 2018**

(Tudalennau 25 - 29)

**2.4 PTN4 - Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol - Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) - 9 Chwefror 2018**

(Tudalen 30)

## 3 Ail Gyllideb Atodol 2017-18: sesiwn dystiolaeth

(09.00-10.20) (Tudalennau 31 - 85)

Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid

Gawain Evans, Cyfarwyddwr Cyllid, Llywodraeth Cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru National Assembly for Wales

Matthew Denham-Jones, Dirprwy Gyfarwyddwr, Rheoli Ariannol, Llywodraeth Cymru

Papur 1 – Cynnig y Gyllideb ar gyfer Ail Gyllideb Atodol 2017-18

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(10.20)

## 5 Ail Gyllideb Atodol 2017-18: trafod y dystiolaeth

(10.20-10.30)

## 6 Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru): Trafod yr adroddiad drafft

(10.30-10.40) (Tudalennau 86 - 118)

Papur 2 – Adroddiad drafft

## 7 Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016: Offerynnau Statudol ym maes treth

(10.40-10.45) (Tudalennau 119 - 121)

Papur 3 – Rheoliadau Casglu a Rheoli Trethi (Trefniadau Talu'n Ôl) (Cymru) 2018

Rheoliadau Casglu a Rheoli Trethi (Trefniadau Talu'n Ôl) (Cymru) 2018
Rheoliadau Casglu a Rheoli Trethi (Trefniadau Talu'n Ôl) (Cymru) 2018 – Memorandwm Esboniadol

## 8 Proses y gyllideb ar gyfer deddfwriaeth

(10.45-12.30) (Tudalennau 122 - 135)

Daniel Greenberg – Bargyfreithiwr sy'n arbenigo mewn deddfwriaeth.

Papur 4 – Proses y gyllideb ar gyfer deddfwriaeth: Papur trafod

# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 31 Ionawr 2018

Amser: 10.01 - 11.50

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4614

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Simon Thomas AC (Cadeirydd)<br>Mike Hedges AC<br>Jane Hutt AC<br>Nick Ramsay AC |
| Tystion: | Sarah Walker, HMRC<br>Jim Harra, HMRC<br>Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad |
| Staff y Pwyllgor: | Bethan Davies (Clerc)<br>Georgina Owen (Dirprwy Glerc)<br>Owen Holzinger (Ymchwilydd)<br>Christian Tipples (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Steffan Lewis AC, David Rees AC a Neil Hamilton AC.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Nodwyd y papurau.

### 2.1 Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid at y Cadeirydd - Recriwtio Awdurdod Refeniw Cymru - 18 Ionawr 2018

## 3 Gwrandawiad Cyn Enwebu - Archwilydd Cyffredinol Cymru

3.1 Cynhaliodd y Pwyllgor wrandawiad cyn enwebu'r ymgeisydd a ffafrir ar gyfer swydd Archwilydd Cyffredinol Cymru, sef Adrian Crompton.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitemau 5 a 7 a'r cyfarfod ar 8 Chwefror 2018

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Gwrandawiad Cyn Enwebu - Archwilydd Cyffredinol Cymru: Trafod y gwrandawiad

5.1 Trafododd y Pwyllgor briodoldeb yr ymgeisydd a ffafrir a chytunodd i drafod y mater eto mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 6 Datganoli pwerau cyllidol i Gymru: Sesiwn dystiolaeth 4 (Cyllid a Thollau EM)

6.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Jim Harra, Ail Ysgrifennydd Parhaol Cyllid a Thollau EM; a Sarah Walker, Dirprwy Gyfarwyddwr, Datganoli, Cyllid a Thollau EM ar ddatganoli pwerau cyllidol i Gymru.

## 7 Datganoli pwerau cyllidol i Gymru: Trafod y dystiolaeth

7.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 4 - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Iau, 8 Chwefror 2018

Amser: 09.46 - 12.42

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4615

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Simon Thomas AC (Cadeirydd)<br>Neil Hamilton AC<br>Mike Hedges AC<br>Jane Hutt AC<br>Nick Ramsay AC<br>David Rees AC |
| Tystion: | Isobel Garner, Swyddfa Archwilio Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Bethan Davies (Clerc)<br>Catherine Hunt (Ail Glerc)<br>Leanne Hatcher (Ail Glerc)<br>Georgina Owen (Dirprwy Glerc)<br>Owen Holzinger (Ymchwilydd)<br>Gareth David Thomas (Ymchwilydd)<br>Gareth Pembridge (Cynghorydd Cyfreithiol) |

**Penderfynodd y Pwyllgor ar 31 Ionawr 2018 i wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod.**

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Steffan Lewis AC.

## 2 Trafod enwebiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

2.1 Trafododd y Pwyllgor ymhellach yr ymgeisydd a ffefrir ar gyfer yr enwebiad i fod yn Archwilydd Cyffredinol Cymru a chytunodd i ymgynghori â chyrff sy'n cynrychioli buddiannau llywodraeth leol yng Nghymru, yn unol ag adran 2(3) Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

## 3 Paratoadau ariannol ar gyfer gadael yr Undeb Ewropeaidd: papur cwmpasu

3.1 Trafododd y Pwyllgor sut y bydd yn cynnal ei ymchwiliad ynghylch paratoadau ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer gadael yr Undeb Ewropeaidd a chytunodd i ystyried y cylch gorchwyl mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 4 Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru): sesiwn wybodaeth ar y cyd â'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar gasgliadau modelu diwygiedig y Sheffield Alcohol Research Group

4.1 Cyflwynodd swyddogion Llywodraeth Cymru sesiwn wybodaeth i'r Pwyllgor ar gasgliadau modelu diwygiedig y Sheffield Alcohol Research Group ar gyfer Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru).

## 5 Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru): trafod yr adroddiad drafft

5.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft a chytunodd i ystyried fersiwn ddiwygiedig yn ei gyfarfod ar 14 Chwefror 2018.

Awdurdod Cyllid Cymru
Welsh Revenue Authority

Eitem 2.1

30.01.2018

Annwyl Simon,

Yn y Pwyllgor Cyllid ar 17 Ionawr, fe wnes i ymrwymo i roi rhagor o fanylion am baratoadau Cofrestrfa Tir EM ar gyfer teitlau tir trawsffiniol Cymru / Lloegr ac am ad-daliadau trethdalwyr ACC.

<u>Trawsffiniol</u>

Rydyn ni wedi bod yn gweithio'n agos iawn gyda Chofrestrfa Tir EM, Asiantaeth y Swyddfa Brisio a Chyllid a Thollau EM i baratoi ar gyfer cyflwyno Treth Trafodiadau Tir ac i sicrhau bod gan ymarferwyr ateb ymarferol i'w galluogi i brosesu teitlau trawsffiniol. Mae Cofrestrfa Tir EM yn gwneud nifer o newidiadau busnes i baratoi ar gyfer mis Ebrill, yn cynnwys:

- Bydd teitlau trawsffiniol yn cael eu canfod a bydd y geiriau canlynol yn cael eu hychwanegu at y gofrestr ar y teitl i ddynodi statws trawsffiniol posibl teitl: *"Mae'n bosibl bod y tir yn y teitl hwn wedi'i leoli'n rhannol yng Nghymru a'n rhannol yn Lloegr".* Bydd hyn yn fodd i ymarferwyr wybod eu bod yn prosesu teitl trawsffiniol.

- Unwaith y bydd ymarferwyr wedi nodi eu bod yn prosesu teitl trawsffiniol, bydd yn rhaid iddynt ddosrannu'n deg ac yn rhesymol rhwng ACC a Cyllid a Thollau EM a ffeilio dwy ffurflen dreth.

- Mewn nifer fach iawn o achosion, ni fydd y ffin rhwng Cymru a Lloegr yn cael ei marcio ar deitl tir Cofrestrfa Tir EM. Yn yr achosion hyn, bydd ymarferwyr yn gallu defnyddio meddalwedd MapSearch y Gofrestrfa Tir i nodi lle mae'r ffin yn croesi'r teitl.

Rydyn ni wedi cael sicrwydd, ar lefel uwch, gan y Gofrestrfa Tir y bydd y newidiadau hyn yn cael eu rhoi ar waith cyn mis Ebrill 2018. I egluro, nid oes angen cysylltiad rhwng systemau treth digidol Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) a systemau Cofrestrfa Tir EM ar gyfer trafodiadau trawsffiniol. Mae canllawiau ACC ar gyfer trafodiadau trawsffiniol wedi cael eu datblygu ar y cyd â Cyllid a Thollau EM i sicrhau bod y ddau awdurdod treth yn rhoi cyngor cyson i ymarferwyr. Mae canllawiau ACC wedi cael eu rhoi i'r rhanddeiliaid a byddant yn cael eu cyhoeddi ar wefan ACC ym mis Chwefror.

Awdurdod Cyllid Cymru, Canolfan QED, Prif Rhodfa, Ystad Diwydiannol Trefforest, Pontypridd, CF37 5YR
Welsh Revenue Authority, QED Centre, Main Avenue, Treforest Estate, Pontypridd, CF37 5YR

Ceisiadau am Broses ad-dalu

Rydyn ni'n rhagweld y bydd ceisiadau trethdalwyr am ad-daliadau yn perthyn i un o'r categorïau canlynol;

- Gordaliad treth a wnaed gan y cwsmer.
- Adennill y gyfradd uwch.
- Gweithgaredd cydymffurfiaeth yn arwain at ddiwygio'r sefyllfa dreth.

*Cais am ad-daliad gan gwsmer neu asiant*

Bydd y broses ad-dalu yn cychwyn pan fydd y cwsmer neu'r asiant awdurdodedig yn llenwi ffurflen yn rhoi manylion sylfaenol y trafodiad sy'n ddigonol i gysylltu'r cais â'r ffurflen wreiddiol.

Pan fydd ACC yn derbyn y ffurflen, bydd yn blaenoriaethu gwiriadau twyll a diwydrwydd dyladwy i sicrhau dilysrwydd y cais gan sicrhau bod ad-daliad yn ddyledus a bod y person iawn yn gwneud cais am yr ad-daliad.

Byddai system rheoli casglu trethi ACC yn cael ei diweddaru i adlewyrchu'r ad-daliad a'r sefyllfa dreth gyffredinol.

Yna, bydd y cais am ad-daliad yn cael ei drosglwyddo i'r tîm cyllid drwy'r system rheoli achosion ar gyfer prosesu ac awdurdodi taliad electronig.

Gobeithio bod y wybodaeth hon o gymorth i chi. Cofiwch gysylltu â ni os hoffech gael rhagor o wybodaeth. Rydw i ar ddeall bod y Pwyllgor yn awyddus i ymweld â'n swyddfeydd yn QED. Edrychaf ymlaen at eich gweld chi i gyd bryd hynny.

Cofion cynnes



**Dyfed Alsop**
Prif Weithredwr – Chief Executive
Awdurdod Cyllid Cymru – Welsh Revenue Authority

**dyfed.alsop@gov.wales**

Ffôn – Tel 03000 250 269

Dear Simon

At Finance Committee on the 17th January I committed to provide further detail on HM Land Registry's (HMLR) preparation for Wales / England cross border land titles and on WRA taxpayer repayments.

Cross Border

We have been working very closely with HM Land Registry (HMLR), Valuation Office Agency, and HMRC in preparing for the introduction of Land Transaction Tax (LTT) and ensuring that practitioners have a workable solution to enable them to process cross border titles. HMLR are undertaking several business changes in preparation for April, these include:

- Cross border titles will be identified and the following wording will be added to the register on the title to provide an indication of a title's potential cross border status: *"The land in this title may be located partly in England and partly in Wales."* This will enable practitioners to identify they are processing a cross border title.

- Once practitioners have identified that they are processing a cross border title they will have to make a just and reasonable apportionment between the WRA and HMRC and file two tax returns.

- In a small minority of cases the Wales England border will not be marked on the HMLR land title, in these cases practitioners will be able to use HMLR's MapSearch software to identify where the border crosses the title.

We have had assurance, at a senior level, from HMLR that these changes are on target to be in place for April 2018. To clarify, there is no connectivity required between Welsh Revenue Authorities (WRA) digital tax systems and HMLR systems for cross border transactions. The WRA guidance for cross border transactions has been developed in collaboration with HMRC to ensure that both tax authorities provide consistent advice to practitioners. The WRA guidance has been shared with stakeholders and will be published on the WRA website in February.

Requests for repayments Process

We anticipate that taxpayer requests for repayments will fall into the following categories;

- An overpayment of tax made by the customer.
- Reclaim of the higher rate.
- Compliance activity resulting in an amendment of the tax position.

*Request for repayment by customer or agent*

Process for repayments will be undertaken by completion of a form by the customer or authorised agent providing basic details of the transaction sufficient to link the request to the original return.

On receipt of the form the WRA will prioritise fraud and due diligence checks to ensure the authenticity of the application ensuring a repayment is due and that the repayment is being requested by the correct person.

WRA tax collection management system would be updated to reflect the repayment and the overall tax position.

Once satisfied the repayment claim will then be passed to the finance team via the case management system for processing and authorisation of an electronic payment.

I hope this information is helpful to the Committee, please do get in touch if you would like anything further. I believe the Committee would like to visit our offices in QED, I look forward to seeing you all then.

Kind Regards,



**Dyfed Alsop**
Prif Weithredwr – Chief Executive
Awdurdod Cyllid Cymru – Welsh Revenue Authority

**dyfed.alsop@gov.wales**

Ffôn – Tel 03000 250 269

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

**National Assembly for Wales**
Finance Committee

Eitem 2.2

John Griffiths AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol
a Chymunedau

8 Chwefror 2018

Annwyl John,

**BIL OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS (CYMRU)**

Yn dilyn gohebiaeth gan y Clerc ar 26 Ionawr 2018, atodaf fy ymateb i adroddiad ymgynghorydd arbenigol y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau.

Fel y nodwyd yn fy nhystiolaeth ar 25 Ionawr 2018, croesawaf benderfyniad y Pwyllgor i gomisiynu cynghorydd arbenigol i adrodd ar oblygiadau ariannol y Bil, gan fod hyn yn arfer gorau.

Rwy'n falch o nodi bod ymgynghorydd arbenigol y Pwyllgor yn gefnogol iawn o ymestyn pwerau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon) yn y pedair prif faes a nodir yn y Bil a'r Memorandwm Esboniadol. Croesawaf y sylw fod y pŵer i gynnal ymchwiliadau ar ei liwt ei hun yn bwysig, a bod ganddo'r potensial i arwain at fuddion sylweddol. Hefyd, croesawaf y sylw y byddai gwella'r drefn ar gyfer ymdrin â chwynion yn arwain at well gwasanaeth i unigolion, a bod ganddo'r potensial i arwain at wella gwasanaethau o ganlyniad i'r gwersi a ddysgir o'r cwynion a geir, ac yn y pen draw, at leihau costau yn sgil gostyngiad yn nifer y cwynion y mae'r Ombwdsmon yn eu derbyn.

Yn ogystal ag ymateb i adroddiad ymgynghorydd arbenigol y Pwyllgor, hoffwn roi rhywfaint o wybodaeth ac eglurder ynghylch rhai o'r materion a godwyd gyda'r Pwyllgor, a chan y Pwyllgor. Mae'r wybodaeth hon wedi'i hatodi i'r llythyr hwn.

Yn gywir

Simon Thomas AC

Cadeirydd

*Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.*

*We welcome correspondence in Welsh or English.*

## Ymatebion i adroddiad yr ymgynghorydd arbenigol

### Ystyried y rhagdybiaethau a ddefnyddir yn yr asesiad effaith rheoleiddiol

1. **A yw'r cynnydd yn y llwyth achosion yn gynnydd strwythurol neu a yw'n gynnydd sydd y tu hwnt i dueddiadau arferol?**

   **Os nad yw'n gynnydd strwythurol, byddai angen ystyried y mater yn ofalus cyn defnyddio'r rhagdybiaeth y bydd cynnydd o 12 y cant yn y llwyth achosion bob blwyddyn dros y pum mlynedd nesaf (paragraff 2.1).**

   Fel y nodir ym mharagraff 11.29 o'r Memorandwm Esboniadol, mae'r Pwyllgor Cyllid wedi cyfrifo'r amcangyfrifon cost gan ddefnyddio rhagamcanion yr Ombwdsmon ar gyfer ei lwyth achosion. Mae hyn yn adlewyrchu gwybodaeth a phrofiad yr Ombwdsmon a'i staff. Roedd y Pwyllgor Cyllid o'r farn mai hwn oedd yr amcangyfrif gorau at ddibenion yr asesiad effaith rheoleiddiol ("yr asesiad"). Fodd bynnag, o ran dadansoddiad sensitifrwydd, mae'r asesiad hefyd yn nodi amcanestyniadau ar gyfer y llwyth achosion a'r gost a fyddai'n gysylltiedig â chynnydd o 5 y cant. Ceir rhagor o wybodaeth yng nghwestiwn 3 isod.

2. **Os bydd gwaith pellach i'w wneud ar yr asesiad, mae'n bosibl y byddai'n werth ystyried defnyddio'r costau sydd ynghlwm wrth y tair elfen o lwyth achosion yr Ombwdsmon, a hynny'n rhan o waith dadansoddi mwy manwl (paragraff 2.4)**

   Mae ymgynghorydd arbenigol y Pwyllgor yn nodi bod amrywiaeth sylweddol yn y costau sydd ynghlwm wrth y gwaith o reoli ymholiadau, asesu cwynion a chynnal ymchwiliadau. Mae'n nodi: "If further work is undertaken on the Regulatory Impact Assessment, it may be worth considering using the costs of all three in a more nuanced analysis".

   Yn yr un modd, nododd y Pwyllgor Cyllid y mater hwn wrth ystyried y costau a'r rhagdybiaethau cychwynnol a ddarparwyd gan yr Ombwdsmon. Dywedodd yr Ombwdsmon nad oedd ei swyddfa'n gallu darparu costau uned ar gyfer elfennau gwahanol o'i lwyth achosion. Daeth yr Aelodau i'r casgliad y byddai defnyddio'r gwariant a dynnwyd gan yr Ombwdsmon mewn perthynas â'i wasanaeth trin cwynion, fel y nodir yn ei adroddiad a chyfrifon archwiliedig blynyddol, er mwyn cyfrifo costau uned fesul achos yn darparu'r amcangyfrif gorau ar gyfer yr asesiad.

   Trafododd y Pwyllgor Cyllid y mater o gostau gwahaniaethol eto wrth graffu ar amcangyfrif yr Ombwdsmon ar gyfer 2018-19. Dywedodd swyddfa'r Ombwdsmon wrth y Pwyllgor Cyllid nad yw'n dadansoddi costau mewn ffordd a fyddai'n hwyluso'r broses o adrodd am gostau gwahaniaethol mewn perthynas â llwyth gwaith yr Ombwdsmon. Byddai

angen llenwi taflenni amser manwl at y diben hwnnw, ac nid oedd y staff yn sicr am y costau a'r manteision o wneud hynny.

Cred y Pwyllgor Cyllid fod y mater o gostau gwahaniaethol yn un pwysig yng nghyd-destun yr adnoddau sydd ar gael i swyddfa'r Ombwdsmon. Yn ei adroddiad, **Amcangyfrif Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2018-19**, gwnaeth y Pwyllgor Cyllid argymhelliad fod yr Ombwdsmon, o ystyried y pwysau ariannol ar wasanaethau cyhoeddus, yn dangos yn glir y rhesymau dros gael adnoddau ychwanegol i reoli llwyth achosion cynyddol, gan gynnwys y gwahaniaeth o ran cost ar gyfer elfennau o'i waith a'r pwysau ariannol cysylltiedig.

3. **Wrth gyfrifo'r cynnydd yn llwyth achosion yr Ombwdsmon, argymhellir bod model 6 y cant neu 8 y cant yn cael ei ddefnyddio, a bod y model hwnnw'n cael ei ddefnyddio ym mhob dadansoddiad perthnasol (paragraff 2.5)**

Fel y nodir ym mharagraff 11.30 o'r Memorandwm Esboniadol, mae rhagamcanion yr Ombwdsmon ynghylch ei lwyth achosion yn rhagdybio cynnydd blynyddol o 12 y cant.

Trafododd y Pwyllgor Cyllid y rhagdybiaeth hon, gan nodi'r newidiadau blynyddol a welwyd yn y llwyth achosion yn y cyfnod rhwng 2010-11 a 2015-16. Nododd yr Aelodau hefyd y dystiolaeth a roddwyd gan yr Ombwdsmon pan fu'r Pwyllgor yn craffu ar yr amcangyfrif ar gyfer 2017-18. Awgrymodd y dystiolaeth honno y byddai cynnydd o rhwng 5 y cant a 6 y cant y flwyddyn. Yn ogystal, dewisodd y Pwyllgor Cyllid nodi'r ffigurau o ran y llwyth achosion a'r gost a fyddai'n gysylltiedig â chynnydd o 5 y cant y flwyddyn. Er bod hyn yn is na rhagamcanion yr Ombwdsmon, nododd y Pwyllgor Cyllid yr amrediad tebygol o gostau a fyddai'n gysylltiedig â chynnydd yn y llwyth achosion, o gofio bod y dull gweithredu hwn yn cael ei ystyried yn arfer da.

## Y pŵer i dderbyn cwynion llafar

4. **Byddai'n ddoeth ymgymryd â dadansoddiad sensitifrwydd ynghylch yr amcangyfrif y bydd 10 y cant o gwynion yn cael eu gwneud dros y ffôn, a hynny gan ddefnyddio ffigur uwch fel 40 y cant (paragraff 3.2) a chan ddefnyddio cynnydd o 10 y cant a 20 y cant yn niferoedd y cwynion a wneir (paragraff 3.3).**

Fel y nodwyd yn fy natganiad i'r Pwyllgor, o dan Ddeddf 2005, mae gan yr Ombwdsmon bŵer ddisgresiwn ar hyn o bryd i dderbyn cwynion llafar sy'n cael eu 'gwneud yn briodol'. Wrth arfer y disgresiwn hwn, mae'r tîm cyngor cwynion yn swyddfa'r Ombwdsmon yn trawsgrifio'r gŵyn ac yn ei hanfon at yr achwynydd i'w llofnodi a'i dychwelyd. Mae'r Ombwdsman

wedi rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid bod tua 50 y cant o'r bobl y mae ei swyddfa wedi anfon cofnodion ysgrifenedig atynt heb eu dychwelyd. Mae hyn yn golygu, am bob person sy'n cwyno'n ffurfiol, mae person arall nad yw'n gwneud hynny.

Wrth baratoi'r asesiad effaith rheoleiddiol, ceisiodd y Pwyllgor Cyllid amcangyfrif effaith y cynnig ynghylch llwyth achosion yr Ombwdsman, gan wahaniaethu rhwng y costau ychwanegol tebygol i'w swyddfa (y 'costau uniongyrchol') a'r rhai yr aed iddynt gan awdurdodau rhestredig (y 'costau anuniongyrchol') . O dan y ddeddfwriaeth bresennol, mae gan yr Ombwdsmon bŵer dewisol i dderbyn cwynion llafar sy'n cael eu gwneud yn briodol. Mae'r Ombwdsmon yn arfer y pŵer dewisol hwn fesul achos wrth benderfynu a ddylid derbyn cwyn lafar fel un sydd wedi'i gwneud yn briodol. Wrth ddileu'r gofyniad i wneud cwyn ysgrifenedig, mae'r Bil yn dileu'r angen i'r Ombwdsmon arfer y pŵer dewisol hwn. Rydym wedi ceisio amcangyfrif **effaith y newid hwn.** O ystyried y darpariaethau presennol, ni fydd pob cwyn a wneir ar lafar yn ychwanegu at lwyth gwaith swyddfa'r Ombwdsmon a'r awdurdodau rhestredig. Gan dderbyn ei bod yn anodd darogan hyn, a bod ansicrwydd ynghylch y ffigurau cysylltiedig, mae swyddfa'r Ombwdsman wedi defnyddio ei gwybodaeth a'i phrofiad i amcangyfrif effaith y newid.

**Costau uniongyrchol**
Ni fydd yr agwedd hon ar y Bil yn newid rôl yr Ombwdsmon yn hyn o beth; yn gychwynnol, bydd yn rhaid gwneud cwyn i'r corff cyhoeddus a ddarparodd y gwasanaeth. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd yn arwain at gynnydd yn nifer y cysylltiadau a wneir â swyddfa'r Ombwdsmon, ac yn nifer yr ymholiadau a wneir iddi. Mae'r Ombwdsman wedi dweud na fydd yn gallu darparu ar gyfer y cynnydd yn ei lwyth gwaith heb gael adnoddau ychwanegol. Mae'r asesiad yn cynnwys amcangyfrif o'r costau uniongyrchol ychwanegol hyn. Mae rhagor o wybodaeth wedi'i nodi yng nghwestiwn 5 isod mewn perthynas ag amcangyfrif y gost gysylltiedig.

**Costau anuniongyrchol**
Fel sy'n ofynnol, mae'r asesiad hefyd yn nodi'r amcangyfrif gorau o'r costau tebygol a fydd yn deillio i awdurdodau rhestredig o ganlyniad i'r cynnig o dan sylw a'r penderfyniad i symud i ffwrdd o'r drefn pŵer dewisol. Bydd y rhain yn cronni yn sgil y cynnydd tebygol mewn **cwynion ac ymchwiliadau** a fydd yn arwain at gostau ychwanegol i'r awdurdodau rhestredig; hynny yw, y cwynion hynny sy'n uwch na nifer y cwynion sy'n dod i law o dan Ddeddf 2005 ac sy'n cael eu derbyn fel cwynion sydd wedi'u gwneud yn briodol.

Fel y nodir ym mharagraffau 11.72 ac 11.73 o'r Memorandwm Esboniadol, gwnaed nifer o ragdybiaethau mewn perthynas â chyfrifo'r gost o symud i ffwrdd o'r drefn pŵer dewisol. Rydym yn edrych yma ar yr effaith ar awdurdodau rhestredig yn unig. Felly, yn hytrach nag adlewyrchu cyfanswm **llwyth achosion** yr Ombwdsmon, rydym wedi

defnyddio nifer y **cwynion** a dderbyniwyd gan yr Ombwdsman mewn perthynas â chyrff cyhoeddus yn 2015-16, sef y ffigur diweddaraf a oedd ar gael adeg paratoi'r asesiad. Rydym wedi rhagdybio y byddai **10 y cant, neu 227, o gwynion** yn cael eu gwneud ar lafar bob blwyddyn o dan y Bil. Fodd bynnag, byddai 202 o'r cwynion hynny wedi cael eu gwneud o dan y drefn pŵer dewisol bob blwyddyn. Felly, **nid ydynt yn cynrychioli cwynion ychwanegol i awdurdodau rhestredig o dan y ddarpariaeth newydd yn y Bil**. Byddai'r 25 o gwynion sy'n weddill yn rhai ychwanegol y byddai'r Ombwdsmon yn mynd ar eu trywydd gyda'r awdurdodau rhestredig, a byddai chwech ohonynt yn destun ymchwiliad bob blwyddyn.

Rwy'n nodi'r dystiolaeth a gafodd y Pwyllgor mewn perthynas â lefel y cwynion llafar y mae ombwdsmyn eraill yn eu derbyn, a hyderaf ein bod wedi darparu tystiolaeth ddigonol a phriodol ynghylch pam na ydynt, o bosibl, yn uniongyrchol berthnasol:

- **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yr Alban** - Cyfeiriodd y dystiolaeth a roddwyd i'r Pwyllgor gan Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus yr Alban (SPSO) at y ffaith bod 72 y cant o gwynion yn cael eu gwneud ar lafar. Deallwn fod hyn yn ymwneud â Swyddogaeth Adolygu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yr Alban mewn perthynas â Chronfa Les yr Alban. Dywedodd yr Ombwdsmon yng Nghymru wrthym fod hyn yn hollol wahanol i waith ei swyddfa.

  Mae Cronfa Les yr Alban yn gynllun cenedlaethol sy'n darparu rhwyd ddiogelwch ar gyfer pobl ar incwm isel sy'n agored i niwed, a hynny drwy ddarparu grantiau gofal cymunedol a grantiau argyfwng. O fis Ebrill 2016, cymerodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yr Alban yr awenau o ran bod yn adolygydd annibynnol ar gyfer y gronfa. Nid yn unig y mae defnyddwyr Cronfa Les yr Alban, fel rheol, yn grŵp hynod fregus, ond dyma'r bobl sydd angen cymorth ar unwaith ac felly angen codi'r ffôn. Er y byddai'r Ombwdsman yn disgwyl rhai galwadau gan grwpiau bregus, y farn yw nad yw'r gymhariaeth hon yn berthnasol.

- **Y Gwasanaeth Ombwdsmon Ariannol** - Ym mharagraff 3.2 o'i adroddiad, cyfeiriodd ymgynghorydd arbenigol y Pwyllgor at adroddiad blynyddol diweddaraf y Gwasanaeth Ombwdsmon Ariannol, a nododd fod tua 43 y cant o gysylltiadau yn digwydd dros y ffôn.

  Fel y nodir uchod, mae'r asesiad effaith rheoleiddiol yn cyfeirio at y rhagdybiaethau a wneir mewn perthynas â nifer y **cwynion**, tra bo adroddiad blynyddol y Gwasanaeth Ombwdsmon Ariannol yn cyfeirio at **gyfran y cysylltiadau** sy'n digwydd dros y ffôn. Deallaf fod gwahaniaeth sylweddol rhwng nifer y cysylltiadau sy'n digwydd dros y

ffôn a chyfran y cwynion a wneir yr un modd. Mae'r rhain yn ffigurau gwahanol i'w mesur.

5. **Awgrymir nad yw'r ddadl dros gael staff ychwanegol ar raddfa gyflog uwch wedi'i gwneud yn yr asesiad effaith rheoleiddiol, ac y dylid cael rhagor o wybodaeth gan yr Ombwdsmon (paragraff 3.6)**

Mae'r ymateb i gwestiwn 4 yn cynnwys eglurhad ynghylch ar ba sail y gwnaed amcangyfrifon o'r costau uniongyrchol a'r costau anuniongyrchol sy'n deillio o'r cynnig i symud i ffwrdd o'r drefn pŵer dewisol mewn perthynas â chwynion llafar. Yn y bôn, bydd y cynnig yn arwain at gynnydd ym maich gwaith yr Ombwdsmon a fydd yn deillio o gysylltiadau ychwanegol gyda phobl sy'n credu eu bod wedi dioddef caledi neu anghyfiawnder yn sgil methiant mewn gwasanaeth a ddarperir gan gorff cyhoeddus, neu ymholiadau gan bobl yn y categori hwn. Bydd angen adnoddau ychwanegol ar swyddfa'r Ombwdsmon ar gyfer y sefyllfa hon.

Mae'r Ombwdsmon wedi ystyried yr effaith o ran y sgiliau y bydd staff perthnasol eu hangen. Nid yw pob aelod o'r cyhoedd sy'n cysylltu â'r Ombwdsmon yn dymuno i'w swyddfa dderbyn y mater y maent yn ei godi gyda staff fel cwyn. Mae rhai aelodau o'r cyhoedd am rannu eu profiadau ond, am resymau amrywiol, nid ydynt am wneud cwyn.

Mewn achos o gŵyn lafar, mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ombwdsmon gadarnhau a yw'r person yn dymuno iddo barhau i drin y mater fel cwyn. Yn ogystal, mae gofyn i'r Ombwdsmon ofyn a yw'r person yn dymuno i'r gŵyn gael ei chadarnhau yn ysgrifenedig. Os felly, rhaid i'r Ombwdsman wneud trefniadau i'r perwyl hwnnw. Fodd bynnag, mewn achos lle nad yw'r person yn dymuno hynny, nid oes angen anfon trawsgrifiad, ond mae gofyn i'r Ombwdsmon gadw cofnod ysgrifenedig.

Derbyniodd y Pwyllgor Cyllid asesiad yr Ombwdsmon fod y newid yn golygu y byddai dyletswydd bellach ar ei staff, yn hytrach na'r achwynydd (neu'r sawl sy'n galw), i gadarnhau'r manylion y mater, gan gynnwys ei gyd-destun, ei natur, natur yr anghyfiawnder sydd wedi deillio ohono a'r canlyniad y ceisir amdano, gan gynnwys a yw'r aelod perthnasol o'r cyhoedd yn dymuno i'r Ombwdsman drin y mater a godwyd fel cwyn sydd wedi'i gwneud yn briodol.

Bwriad polisi y cynnig hwn yw gwella cyfiawnder cymdeithasol a chyfle cyfartal drwy sicrhau bod gwasanaethau'r Ombwdsmon yn hygyrch i bob dinesydd, gan gynnwys y rhai mwyaf bregus ac anghenus, fel pobl ag anawsterau dysgu a phobl ddigartref. Cafodd y Pwyllgor Cyllid ei ddarbwyllo gan dystiolaeth nad swyddogaeth weinyddol yw cymryd cwyn lafar; yn hytrach, mae'n rôl gymhleth. Mae'r dystiolaeth a roddwyd i'ch Pwyllgor chi, fel y dystiolaeth gan Hospice UK, byrddau iechyd lleol a Gofal Cymdeithasol Cymru, yn cefnogi'r safbwynt hwn. Maent wedi

nodi bod angen sgiliau ac amser i gymryd y manylion cywir gan bobl ac i weithio drwy gyfres o drefniadau a all fod yn gymhleth iawn, yn aml pan fo pobl yn agored i niwed, efallai'n galaru ac wedi mynd drwy'r broses gwyno sy'n cael ei gweithredu gan y corff cyhoeddus a ddarparodd y gwasanaeth. Gwasanaeth yr Ombwdsmon yw eu 'dewis olaf'.

Am y rhesymau hyn, derbyniodd y Pwyllgor Cyllid asesiad yr Ombwdsmon y byddai gofyn cael yr adnoddau ychwanegol sydd wedi'u nodi yn yr asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r cynnig.

Ym mharagraff 7.3, mae ymgynghorydd arbenigol y Pwyllgor hefyd yn nodi, os nad yw swyddfa'r Ombwdsmon yn symud tuag at drefn gyfeirio ar-lein a ffurflenni cwyno ar-lein, mae risg gwirioneddol y bydd y costau sy'n gysylltiedig â'r cynnig hwn yn uwch na'r disgwyl. Rwyf ar ddeall bod swyddfa'r Ombwdsmon eisoes yn defnyddio system gyfeirio ar-lein a ffurflenni cwyno ar-lein. Fodd bynnag, nid bwriad polisi'r cynnig i dderbyn cwynion llafar fel cwynion sydd wedi'u gwneud yn briodol yw ceisio newid y drefn gwyno o fod yn system ffurflenni papur i fod yn system ar-lein. Yn hytrach, mae'r cynnig am sicrhau y gall y rhai mwyaf bregus gael mynediad at wasanaethau'r Ombwdsmon. Fel y nodir ym mharagraff 3.11 o adroddiad ymgynghorwr arbenigol y Pwyllgor, mae tystiolaeth ymchwil yn nodi nad yw llawer o bobl sydd â sail gyfreithiol i'w hachos yn gwneud cwyn, a bod rhwystrau bychain yn y broses yn gallu eu hatal rhag gwneud hynny.

6. **Gan gymryd bod nifer y cwynion ychwanegol a ddaw yn sgil caniatáu cwynion llafar yn gywir, mae'r ymgynghorydd arbenigol yn nodi bod gwerth y costau i gyrff cyhoeddus eraill wedi'i oramcangyfrif (paragraff 3.10).**

Yn ôl ymgynghorydd arbenigol y Pwyllgor, ymddengys fod cyfanswm yr oriau a nifer y staff sy'n ymwneud â'r broses o ymdrin â chwyn a chynnal ymchwiliad yn uchel. Felly, ei gasgliad yw bod y gost wedi cael ei goramcangyfrif.

Mae paragraffau 11.6 a 11.7 o'r Memorandwm Esboniadol yn nodi'r gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid a wnaed gan yr Ombwdsman a'r cwmni annibynnol a gomisiynwyd gan ei swyddfa i gynorthwyo'r broses o baratoi'r asesiad effaith rheoleiddiol. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys:

- gofyn am wybodaeth gan swyddogion cwynion 22 awdurdod lleol Cymru drwy Gadeirydd Grŵp Cwynion Corfforaethol Cymru;
- gofyn am wybodaeth gan sefydliadau GIG Cymru drwy Grŵp Gwrando a Dysgu o Adborth GIG Cymru;
- gofyn am sylwadau mewn cyfarfod Grŵp Cwynion Corfforaethol Cymru mewn perthynas â'r amcangyfrifon gorau ar gyfer y costau anuniongyrchol tebygol.

Llywiodd y gwaith ymgysylltu hwn yr amcangyfrif a wnaed ynghylch goblygiadau ariannol y Bil i'r awdurdodau rhestredig (neu'r 'costau anuniongyrchol'), sydd wedi'u nodi ar ffurf costau uned isel ac uchel. Mae'r amcangyfrif hwn felly'n darparu amrediad o gostau tebygol sydd ynghlwm wrth y darpariaethau newydd, sy'n cael ei ystyried yn arfer da.

## Ymchwiliadau ar ei liwt ei hun

7. **Mae £5,000 yn lefel fwy realistig ar gyfer ffioedd proffesiynol na'r £10,000 sydd wedi'i nodi yn yr asesiad (paragraff 4.5)**
Fel y nodwyd yn y dystiolaeth a roddwyd gennyf i'r Pwyllgor ar 25 Ionawr 2018, mae'r amcangyfrif o ffioedd proffesiynol yn adlewyrchu'r costau sy'n cael eu hysgwyddo gan swyddfa'r Ombwdsmon. At ddibenion yr amcangyfrif, mae'r Ombwdsmon wedi rhagdybio gofyniad o 25 diwrnod o gyngor y flwyddyn, sy'n adlewyrchu ystod, natur a chymhlethdod posibl yr achosion o dan sylw.

8. **Costau ar gyrff cyhoeddus (paragraff 4.6)**
Gweler yr ymateb a roddir i gwestiwn 17 isod.

9. **Mae costau cyrff yn y sector cyhoeddus yn 'nominal'. Felly, dylai fod yn bosibl ariannu'r costau hyn o adnodd presennol y sefydliad (paragraff 4.10)**
Rydym yn nodi sylwadau'r ymgynghorydd arbenigol ac wedi'u hadlewyrchu yn ein rhagdybiaethau ar gyfer yr asesiad effaith rheoleiddiol (paragraff 11.47 o'r Memorandwm Esboniadol). Er bod y costau hyn yn nominal ac yn debygol o gael eu hariannu drwy adnoddau presennol, mae'n bwysig gwneud gwaith cyfrifo at ddibenion mesur effaith y cynigion a wneir yn y ddeddfwriaeth ar gyrff eraill, ac nid yw'r Pwyllgor Cyllid mewn sefyllfa i argymell sut y dylid ariannu'r costau ychwanegol hyn.

10. **Rhaid bod yn ofalus hefyd o ran y gostyngiad o 5 y cant yn y cwynion a fydd yn deillio o gynnal ymchwiliadau ar ei liwt ei hun (paragraff 4.12)**

Fel y nodir ym mharagraff 11.34 o'r Memorandwm Esboniadol, mae rhagamcanion yr Ombwdsmon ynghylch ei lwyth achosion yn rhagdybio y bydd y cynnydd yn cael ei liniaru gan y pŵer i gynnal ymchwiliadau ar ei liwt ei hun, sy'n cyfateb i 5 y cant o gwynion a wnaed yn 2015-16, a hynny erbyn 2020-21 a diwedd tymor y Cynulliad hwn.

Roedd y dystiolaeth a roddwyd i'r Pwyllgor gan dystion fel Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cydnabod yr anawsterau sydd ynghlwm wrth amcangyfrif effaith y cynigion, gan gynnwys effaith diwygio deddfwriaethol ar ymddygiad.

Mae'r rhagdybiaeth yn yr asesiad effaith rheoleiddiol yn adlewyrchu gwybodaeth a phrofiad yr Ombwdsmon a'i staff. Os bydd y Bil yn destun

deddfiad, mae'r Ombwdsmon wedi datgan nad yw ei swyddfa'n disgwyl cyrraedd 'cyflwr cyson' hyd nes tair blynedd ar ôl cychwyn y pwerau newydd.

Mae'r rhagdybiaethau hefyd yn adlewyrchu'r gwaith dadansoddi a wnaed yng Ngogledd Iwerddon mewn perthynas â pharatoi pwerau newydd i alluogi Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Iwerddon gynnal ymchwiliadau ar ei liwt ei hun. Mae'r pwynt olaf yn cyfeirio at sicrhau gostyngiad o 5 y cant yn y llwyth achosion **bob blwyddyn** (neu 40 o gwynion), a hynny o ganlyniad i gynnal ymchwiliadau ar ei liwt ei hun.

## Ymchwilio i'r elfen gofal iechyd preifat mewn llwybr gofal iechyd cyhoeddus/preifat

**11. A fydd nifer y cwynion yn codi'n sydyn yn dilyn deddfiad (paragraff 5.2)**

Mae'r amcangyfrif yn adlewyrchu'r rhagdybiaeth y bydd y pŵer yn arwain at saith cwyn y flwyddyn sy'n ymwneud â gofal neu driniaeth mewn llwybr cyhoeddus/preifat dros y cyfnod o bum mlynedd y mae'r asesiad effaith rheoleiddiol yn nodi costau a buddion ar eu cyfer.

Cefnogwyd y rhagdybiaeth hon gan dystiolaeth a roddwyd i'ch Pwyllgor gan dystion fel Gwasanaeth Dyfarnu Cwynion y Sector Gofal Iechyd Annibynnol (ISCAS) a Chymdeithas Gofal Iechyd Annibynnol Cymru. Mynegodd y gymdeithas y farn na fyddai'r ddarpariaeth yn creu cynnydd sydyn ychwanegol yn nifer y cwynion sy'n dod i law.

Mewn achosion o'r fath, bydd yr Ombwdsman yn ymchwilio i ran o gŵyn (yn hytrach na'r gŵyn gyfan), a bydd ond yn gwneud hynny pan nad yw'n bosibl ymchwilio i fater yn effeithiol neu yn ei chyfanrwydd heb ymchwilio i faterion sy'n ymwneud â'r gwasanaethau iechyd preifat a ddarparwyd hefyd.

Dywedodd yr Ombwdsmon wrth y Pwyllgor Cyllid na fyddai'n gofyn am gyllid ychwanegol ar gyfer y ddarpariaeth hon, ond y byddai'n gallu ysgwyddo'r costau cysylltiedig o fewn ei adnoddau presennol (paragraff 11.119, Memorandwm Esboniadol). Fodd bynnag, yn unol â Rheolau Sefydlog y Cynulliad ac arfer gorau yn y maes, mae angen mesur costau hyd yn oed pan na fydd cyllid ychwanegol yn cael ei ddyrannu er mwyn newid y modd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu. Mae'r asesiad effaith rheoleiddiol yn mabwysiadu costau uned yr Ombwdsmon fesul achos (£501) er mwyn amcangyfrif y gost: £3,507 y flwyddyn neu £17,535 dros bum mlynedd.

**12. Mae absenoldeb costau anuniongyrchol darparwyr preifat yn eithriad difrifol (paragraff 5.3)**

Trafododd y Pwyllgor Cyllid y mater hwn gyda'r Ombwdsman yng nghyd-destun arfer gorau, gofynion y Rheolau Sefydlog a'i ystyriaethau ei hun, gan gynnwys ei ymchwiliad i'r costau sy'n gysylltiedig â deddfwriaeth.

Fel y nodir ym mharagraff 11.57 o'r Memorandwm Esboniadol, nid oes gan yr Ombwdsmon fynediad, na hawl, i gael manylion am nifer y cwynion, a'r costau sy'n gysylltiedig â hwy, a wnaed am wasanaethau iechyd preifat. Mae Gwasanaeth Annibynnol Dyfarnu ar Gwynion y Sector Gofal Iechyd (ISCAS) yn darparu beirniadaeth annibynnol ar gwynion cleifion ynghylch aelodau ISCAS, ond nid yw hyn yn cwmpasu'r holl ddarparwyr gofal iechyd preifat. Nid yw'r wybodaeth arall sydd wedi'i chyhoeddi yn cwmpasu'r holl ddarparwyr gofal iechyd preifat.

O'r herwydd, mae'r asesiad effaith rheoleiddiol yn nodi na fu'n bosibl amcangyfrif gwerth y costau uniongyrchol os bydd y ddeddfwriaeth yn darparu pwerau i'r Ombwdsmon ystyried cwynion ynghylch yr holl ddarparwyr gwasanaethau iechyd preifat. Felly, mae'r asesiad yn nodi nad yw effaith y gost ar ddarparwyr gwasanaethau iechyd preifat yn hysbys.

Mae ymgynghorydd arbenigol y Pwyllgor yn argymell y byddai'n rhesymol rhagdybio y bydd effaith cost y cynnig yn debyg i'r effaith ar y sector cyhoeddus. Yn unol â'r rhagdybiaeth hon, gan ddefnyddio'r costau uned isel ac uchel sydd wedi'u nodi yn nhablau 15 ac 16 o'r asesiad ar gyfer cynnal **ymchwiliad llawn**, amcangyfrifir y bydd y gost i ddarparwyr iechyd preifat rhwng £12,117 a £15,099 y flwyddyn, neu rhwng £60,585 a £75,495 dros bum mlynedd (nid yw hyn yn cynnwys unrhyw gynnydd blynyddol o ran costau byw mewn perthynas â chostau staff).

Ni fabwysiadwyd y dull gweithredu hwn gan y Pwyllgor Cyllid am ddau reswm. Yn gyntaf, mae diffyg tystiolaeth i gefnogi'r rhagdybiaeth y byddai'r costau a ysgwyddir gan ddarparwyr preifat yr un peth â'r rhai yr aed iddynt gan gyrff sector cyhoeddus. Yn ail, defnyddir costau uned isel ac uchel cyrff sector cyhoeddus i lunio amcangyfrif ar gyfer ymchwilio i gŵyn yn ei chyfanrwydd. Yn yr achosion hyn, byddai'r driniaeth neu'r gofal a ddarperir gan ddarparwyr gwasanaethau iechyd preifat yn un elfen o'r llwybr cyhoeddus/preifat yn hytrach na bod yn destun cwyn yn ei chyfanrwydd. Felly, y farn oedd nad oedd yn briodol defnyddio'r un costau i amcangyfrif yr effaith ariannol ar ddarparwyr preifat. Yn gysylltiedig â'r disgwyliad y bydd saith cwyn y flwyddyn, ni ystyriwyd bod hepgor y costau anhysbys hyn yn bwysig.

Rwyf hefyd yn nodi'r dystiolaeth a roddwyd i'r Pwyllgor gan ISCAS mewn perthynas ag argaeledd gwybodaeth ariannol sy'n cael ei nodi yn ei adroddiadau. Fy nealltwriaeth yw bod ISCAS yn adrodd ar y costau sydd ynghlwm wrth y broses ddyfarnu a'r defnydd a wneir o arbenigwyr clinigol. Fodd bynnag, o dan y trefniadau a gynigir yn y Bil, mewn achosion lle gwneir cwyn i'r Ombwdsmon sy'n ymwneud â gofal iechyd a

gomisiynir yn gyhoeddus ac yn breifat, ni fyddai'r costau hyn yn disgyn ar ddarparwyr gofal iechyd preifat (ac eithrio o dan yr amgylchiadau arbennig sydd wedi'u nodi yn y Bil, lle mae darparwyr wedi rhwystro gwaith yr Ombwdsmon). Y costau a fyddai'n disgyn ar ddarparwr gofal iechyd preifat o dan y cynigion yn y Bil fyddai'r rhai sy'n deillio o ddarparu cofnodion, manylion a chanfyddiadau ei ymchwiliad i'r Ombwdsman. Nid yw ISCAS yn adrodd ar y costau y mae darparwyr gofal iechyd preifat yn eu hysgwyddo wrth ddarparu gwybodaeth i ISCAS a chydweithio ag ymchwiliad/proses ddyfarnu ISCAS.

## Safonau a gweithdrefnau'r broses o ymdrin â chwynion

**13. Er bod yr asesiad effaith rheoleiddiol yn nodi'r costau i gyrff cyhoeddus o ddatblygu gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion ond nid y costau cysylltiedig, fel yr amser a dreulir yn y broses o'u datblygu, ac yn y broses o hysbysu a hyfforddi staff perthnasol ynghylch y dull newydd o ymdrin â chwynion (paragraff 6.5)**

Fel y nodir yn yr ymateb i gwestiwn 6, bu'r Ombwdsmon a'r cwmni annibynnol a gomisiynwyd gan ei swyddfa i gynorthwyo'r broses o baratoi'r asesiad effaith rheoleiddiol (OB3) yn ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn paratoi'r amcangyfrifon gorau o gostau anuniongyrchol. Awgryma hyn mai'r unig gostau ychwanegol i gyrff cyhoeddus sy'n deillio o rôl yr awdurdod safonau cwynion fyddai costau sy'n ymwneud â newidiadau i systemau, gan gynnwys systemau TG. Byddai cyrff sector cyhoeddus eisoes yn ymgymryd â gweithgareddau eraill o dan y darpariaethau presennol, fel hyfforddi a lledaenu arfer da. Hefyd, byddai swyddfa'r Ombwdsmon yn defnyddio ei mecanweithiau cyfredol ar gyfer gweithio gydag awdurdodau rhestredig, fel ei seinfyrddau, a chyfarfodydd cyswllt rheolaidd â'r rhai sy'n ymdrin â chwynion a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Yn sgil hynny, ni fyddai costau'r gweithgareddau o dan sylw yn gostau ychwanegol o dan y Bil.

**14. Efallai y bydd oedi cyn gwireddu'r buddion a nodir o ran gostyngiad yn nifer y cwynion sy'n cael eu derbyn gan yr Ombwdsmon (paragraff 6.2), ond mae'n bosibl y bydd y buddion hynny'n fwy na'r amcangyfrif a wnaed (paragraff 6.8)**

Fel y nodir ym mharagraff 11.34 o'r Memorandwm Esboniadol, mae rhagamcanion yr Ombwdsmon ynghylch ei lwyth achosion yn rhagdybio y bydd y cynnydd yn cael ei liniaru gan y rôl ymdrin â chwynion, sy'n cyfateb i 10 y cant o gwynion a wnaed yn 2015-16, a hynny erbyn 2020-21 a diwedd tymor y Cynulliad hwn. Mae'r rhagdybiaeth hon yn adlewyrchu gwybodaeth a phrofiad swyddfa'r Ombwdsmon: sef y bydd 'cyflwr cyson' yn cael ei gyflawni ar ôl tair blynedd, ond y bydd effaith y pŵer newydd yn parhau i dyfu dros y ddwy flynedd sy'n dilyn y cyfnod sy'n destun amcangyfrifon ynghylch costau/buddion y Bil yn yr asesiad effaith rheoleiddiol.

**15. Awgrymir y dylid gofyn i'r Ombwdsmon ddarparu manylion ynghylch y cyngor proffesiynol y bydd ei angen arno (paragraff 6.3).**

Gweler yr ymateb a roddir i gwestiwn 7 uchod.

## Materion eraill

**16. Byddai costau ychwanegol yn disgyn ar rannau gwahanol o'r sector cyhoeddus**

Mae Paragraff 11.46 yn nodi nad yw'n bosibl rhagweld pa gyrff cyhoeddus y bydd y cynnydd mewn llwyth achosion yn y dyfodol yn berthnasol iddynt. Rwy'n deall nad yw tueddiadau, o reidrwydd, yn cynrychioli gweithgarwch yn y dyfodol. Er enghraifft, nododd yr Ombwdsmon y newidiadau yn nifer y cwynion a geir mewn un sector, sef y GIG yng Nghymru. Mae hyn wedi'i nodi yn Adroddiad y Pwyllgor Cyllid, Amcangyfrif Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2018-19:

> Yn ôl yr Ombwdsmon, mae cyfran fawr o'r cynnydd yn nifer y cwynion iechyd oherwydd cynnydd o 23 y cant yn nifer y cwynion a gafwyd am Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a chynnydd yn nifer y cwynion a gadarnhawyd. O'r chwe adroddiad budd cyhoeddus a gyhoeddwyd ganddo, roedd tri yn gysylltiedig â'r bwrdd iechyd hwnnw.

**17. Ymddengys fod costau pontio untro a 'chostau staff eraill' yn uchel. Argymhellir bod yr Ombwdsmon yn darparu manylion ynghylch sut y cyfrifwyd y costau hyn (paragraff 2.10)**

Wrth baratoi'r amcangyfrifon, ceisiodd y Pwyllgor Cyllid beidio â thanamcangyfrif y costau. Mae'r amcangyfrifon yn adlewyrchu'r costau a ysgwyddir gan yr Ombwdsman a'i swyddfa.

### Costau pontio

Mae'r costau pontio yn cynnwys amcangyfrifon ynghylch yr eitemau a ganlyn ar gyfer pob aelod o staff ychwanegol:

- recriwtio;
- desg a chadair;
- storio ffeiliau;
- ffôn, cyfrifiadur a pherifferolion, monitor a stand;
- costau sy'n gysylltiedig â sefydlu systemau TGCh yr Ombwdsmon;
- offer swyddfa sylfaenol;
- pàs diogelwch;
- hyfforddiant/cynefino cychwynnol; ac
- offer TG ar gyfer gweithio symudol.

Roedd y Pwyllgor Cyllid o'r farn bod yr amcangyfrif (£5,000 fesul aelod o staff) yn rhesymol.

**Costau swyddfa**

Fel y nodwyd yn fy nhystiolaeth i'r Pwyllgor, dywedodd yr Ombwdsmon wrth y Pwyllgor Cyllid fod ei gostau swyddfa presennol yn cyfateb i tua £13,000 fesul aelod o staff. Nid yw'r holl gostau'n cynyddu wrth gael mwy o staff. Fodd bynnag, mae llawer o gostau yn cynyddu.

Mae'r costau parhaus sydd wedi'u nodi yn yr amcangyfrif fel a ganlyn:

- trwyddedau meddalwedd (gan gynnwys Microsoft, amgryptio data, meddalwedd gwrth-firws a system rheoli achosion);
- defnyddio deunyddiau ysgrifennu;
- dibrisiant dodrefn ac offer swyddfa;
- defnyddio'r ffôn a defnyddio'r rhwydwaith TG a chostau cymorth; a
- chostau cyfathrebu a chostau sy'n gysylltiedig ag achosion fel darparu cyngor arbenigol proffesiynol.

Roedd y Pwyllgor Cyllid o'r farn mai'r ffigur o £5,000 y flwyddyn ar gyfer pob aelod o staff newydd oedd yr amcangyfrif gorau, gan adlewyrchu llai na 40 y cant o'r costau uned cyfredol. Nid yw hyn yn cynnwys costau nad ydynt yn amrywio wrth i niferoedd staff newid, fel gwresogi a goleuo.

**Hyfforddiant a theithio**

Bydd staff newydd yn gweithredu dros Gymru gyfan, ac felly, bydd costau teithio ynghlwm wrth eu gwaith. Er enghraifft, gallai siwrnai ddwyffordd i Wrecsam ar y trên gostio £130. Gallai cwrs hyfforddi cyffredin gostio rhwng £300 a £400, a dywedodd yr Ombwdsmon fod y swm sydd wedi'i nodi yn y Memorandwm Esboniadol yn gydnaws â chostau hyfforddi'r staff perthnasol sydd yn ei swyddfa ar hyn o bryd.

Roedd y Pwyllgor Cyllid yn cydnabod yr angen i hyfforddi staff newydd, ac y byddai'r Ombwdsman yn ysgwyddo costau ychwanegol mewn perthynas â hynny. Roedd hefyd yn cydnabod na fyddai staff yn gweithio yn y swyddfa drwy'r amser. Ceisiodd yr Aelodau beidio â thanamcangyfrif y costau o dan sylw, a daethant i'r casgliad bod amcangyfrif o £1,000 y flwyddyn yn rhesymol.

Ni wnaed unrhyw waith meincnodi arall, gan fod yr amcangyfrifon yn adlewyrchu'r gwir gostau a ysgwyddir gan swyddfa'r Ombwdsmon. Hefyd, ni ystyriwyd y byddai hyn yn gymesur o gofio'r ffigurau dan sylw.

## Crynodeb

Rwyf yn croesawu penderfyniad y Pwyllgor i gomisiynu ymgynghorydd arbenigol i adrodd ar oblygiadau ariannol y Bil. Ystyrir bod cael asesiad annibynnol yn arfer gorau, ac rwy'n gobeithio y bydd y dull a fabwysiadwyd gan y Pwyllgor yn cael ei ddefnyddio yn y dyfodol fel enghraifft ar gyfer datblygu amcangyfrifon o gostau deddfwriaeth.

Fel yr oedd y dystiolaeth a roddwyd i'r Pwyllgor gan rai tystion yn ei hawgrymu, gan gynnwys y dystiolaeth gan Ombwdsmon Gwasanaethau

Cyhoeddus Gogledd Iwerddon, gwnaed cryn dipyn o waith i lunio'r amcangyfrifon o gostau uniongyrchol ac anuniongyrchol. Mae hyn yn cynnwys y gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid a wnaed gan yr Ombwdsman a'r cwmni annibynnol a gomisiynwyd gan ei swyddfa i gynorthwyo'r broses o baratoi'r asesiad effaith rheoleiddiol. Gwnaed ystod o ddadansoddiadau hefyd i lywio'r rhagdybiaethau y mae'r amcangyfrifon wedi'u seilio arnynt.

Mae'r Pwyllgor Cyllid yn parhau i fod yn hyderus ynghylch ei amcangyfrif o'r costau a'r manteision cyffredinol. Byddai'r Aelodau'n ystyried unrhyw dystiolaeth y gall ymgynghorydd arbenigol y Pwyllgor ei darparu a allai fireinio'r amcangyfrifon a'n dealltwriaeth o gostau posibl y darpariaethau newydd yn y Bil. Fodd bynnag, byddai'n rhaid i'r Pwyllgor Cyllid gydbwyso unrhyw wybodaeth ychwanegol yn erbyn y dystiolaeth y mae'r rhagdybiaethau a'r amcangyfrifon wedi'u seilio arni, a hynny er mwyn sicrhau bod y costau cysylltiedig yn parhau i gael eu cyfrifo mewn modd cyson. Bydd y Pwyllgor Cyllid hefyd yn ceisio defnyddio'r dystiolaeth a ddarparwyd gan yr ymgynghorydd arbenigol, fel y dystiolaeth ar gostau staff a ffioedd proffesiynol eraill, yn ei waith craffu ar amcangyfrif blynyddol yr Ombwdsmon yn y dyfodol.

## Materion eraill a godwyd gan y Pwyllgor

1. **Y meini prawf ar gyfer ymchwilio ar ei liwt ei hun**

Gofynnodd y Pwyllgor am fy marn ar dystiolaeth ysgrifenedig yr Ombwdsmon ynghylch y ffaith na fyddai'r meini prawf ar gyfer cynnal ymchwiliadau ar ei liwt ei hun, sydd wedi'u nodi ar wyneb y Bil, o reidrwydd yn cwmpasu'r holl waith arfaethedig yn y maes hwn.

Mae'r Bil yn caniatáu i'r Ombwdsmon ymchwilio i bob un o'r pedwar senario y mae'r Ombwdsmon yn cyfeirio atynt yn ei dystiolaeth, cyn belled â bod yr amodau a ganlyn yn cael eu bodloni pan fo senario yn arwain at gynnal ymchwiliad ar ei liwt ei hun:

- bod y meini prawf ar gyfer cynnal ymchwiliad ar ei liwt ei hun yn cael eu bodloni; a
- bod y gweithdrefnau sy'n berthnasol i gynnal ymchwiliad ar ei liwt ei hun yn cael eu dilyn (yn amodol ar y disgresiwn sydd gan yr Ombwdsmon yn adrannau 16(3) a 16(4) mewn perthynas â pharatoi cynigion ymchwilio).

Fel y nodwyd yn fy nhystiolaeth, diwygiodd y Pwyllgor Cyllid y Bil drafft i gynnwys meini prawf penodol y mae angen eu bodloni (a'r gweithdrefnau sy'n gorfod cael eu cymhwyso) mewn perthynas â chynnal ymchwiliad ar ei liwt ei hun. Mae'r rhain wedi'u drafftio i sicrhau bod y bwriad polisi sydd wedi'i nodi yn y Memorandwm Esboniadol a'r asesiad effaith rheoleiddiol yn cael ei gyflawni.

2. **Adrannau 40 a 41**
Ymatebais i sylwadau Ysgrifennydd y Cabinet mewn perthynas ag Adrannau 40 a 41 o'r Bil mewn tystiolaeth a roddais i'r Pwyllgor ar 25 Ionawr 2018.

3. **Adran 8(5)**
Mae cyflwyniad ysgrifenedig Ysgrifennydd y Cabinet i'r Pwyllgor hefyd yn cynnwys sylwadau mewn perthynas ag adran 8(5) o'r Bil. Mae hon yn adran bwysig iawn o'r Bil. Os yw rhywun yn gwneud cwyn llafar ac yn dweud wrth yr Ombwdsmon nad yw am i'r gŵyn gael ei drin fel cwyn ffurfiol sydd wedi'i gwneud yn briodol, ni ddylai'r Ombwdsman ddefnyddio'r pŵer yn adran 3 i ymchwilio i gŵyn y person hwnnw. Felly, mae adran 8(5) yn atal yr Ombwdsman rhag parhau â'r gŵyn drwy ymchwiliad o dan adran 3.

Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r Ombwdsmon gael yr opsiwn o ymchwilio ar liwt ei hun o dan adran 4 gan ei bod yn bosibl y bydd mater difrifol y bydd angen ymchwilio iddo. O dan adran 4, gall yr Ombwdsmon gynnal ymchwiliad ar liwt ei hun heb gynnwys y person a wnaeth y gŵyn lafar.

Felly, rwy'n anghytuno ag asesiad Ysgrifennydd y Cabinet fod y gwaharddiad yn adran 8(5) yn ddiwerth.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyllid

National Assembly for Wales
Finance Committee

Eitem 2.3

Mick Antoniw AC,
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

30 Ionawr 2018

Annwyl Mick

**BIL OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS (CYMRU)**

Yn dilyn fy sesiwn dystiolaeth gerbron y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar 15 Ionawr 2018 mewn perthynas â Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru), hoffwn egluro ymhellach rai o'r materion a nodwyd gan y Pwyllgor:

**1. Elfen ôl-weithredol ymchwiliadau ar liwt ei hun o dan adran 4 ac adran 44**

Nid yw ôl-weithredu yn brawf o gymhwysedd deddfwriaethol, ond mae hawliau dynol yn rhan o'r prawf o gymhwysedd deddfwriaethol. Felly, ystyriwyd y gwaith o ddrafftio adrannau 4 a 44 yn sgil hawliau dynol yn benodol.

I'r graddau bod unrhyw ymyrraeth â hawliau dynol, gellir ei gyfiawnhau'n glir o ystyried y ffordd y mae adran 5(2) ac adran 45(2) wedi'u drafftio – rhaid bod mater **cyfredol a pharhaus** o ran anghyfiawnder a chaledi. Er enghraifft, os bydd rhywbeth yn digwydd 12 mis cyn y Cydsyniad Brenhinol: (a) sy'n dal yn debygol heddiw i achosi i **berson sy'n agored i niwed neu sydd o dan anfantais** i ddioddef anghyfiawnder neu galedi, neu (b) sy'n dal heddiw i gyfrif fel **methiant systemig** (gan gofio bod methiant systemig yn mynd i effeithio ar ddwsinau, cannoedd neu hyd yn oed filoedd o bobl), yna mae ond yn iawn bod yr Ombwdsmon yn gallu ymchwilio.

Pe byddai torbwynt, dyweder, o 24 mis cyn cynnwys y Cydsyniad Brenhinol a bod yr Ombwdsmon yn dod yn ymwybodol o fater parhaus difrifol o ganlyniad i rywbeth a wnaed 24 mis ac 1 diwrnod cyn y Cydsyniad Brenhinol, yna ni fyddai'r Ombwdsmon yn gallu helpu pobl a helpu i sicrhau gwell gwasanaethau cyhoeddus.  Ni ystyriwyd mai dyna'r peth gorau i'w wneud.

Mae'r Bil yn rhoi disgresiwn i'r Ombwdsmon wneud y dyfarniad cywir, yn dibynnu ar amgylchiadau'r achos. Mae gan yr Ombwdsmon y disgresiwn hwnnw hefyd mewn perthynas ag adran 3 ymchwiliadau. Mae adran 3(4) yn rhoi'r disgresiwn hwnnw i'r Ombwdsmon mewn cysylltiad ag adran 3 ymchwiliadau, ac mae'r disgresiwn hwnnw wedi'i gopïo o adran 2(4) Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus 2005 (Deddf 2005). Unwaith eto, mae'r disgresiwn a roddwyd i'r Ombwdsmon o dan Ddeddf 2005 wedi'i gynllunio i roi hyblygrwydd iddo, yn dibynnu ar amgylchiadau pob achos. Nid oes **terfyn amser** i'r disgresiwn yn Neddf 2005.

Beth bynnag, faint o ymyrraeth sydd mewn gwirionedd gyda hawliau dynol? Y sancsiwn olaf o dan y Bil yw bod adroddiad yn cael ei wneud mewn cysylltiad ag awdurdod rhestredig; nid oes dirwy ac nid oed dyletswydd gyfreithiol i weithredu unrhyw argymhellion a wnaed gan yr Ombwdsmon mewn adroddiad. Mae gan yr Ombwdsmon y pŵer i ofyn am ddogfennau fel rhan o ymchwiliad, ond mae hwnnw'n ymyrraeth gyfyngedig a chyfiawn gyda hawliau dynol. Pan fyddwch yn cydbwyso cais am ddogfennau gyda, dyweder, budd y cyhoedd o atal pobl sy'n agored i niwed rhag dioddef anghyfiawnder neu galedi (ond rhaid bod elfen o anghyfiawnder neu galedi bob tro) yna gellir cyfiawnhau ymyrraeth gyfyngedig yn glir.

Ar ben hynny, gallai anwybyddu materion a ddigwyddodd cyn y Cydsyniad Brenhinol gyfrif fel torri hawl pobl i gael uniondeb pan fyddant wedi dioddef anghyfiawnder neu galedi. Gall unioni o'r fath gael effaith wirioneddol ar eu hawliau Erthygl 8 (o dan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol), felly mae caniatáu i'r Ombwdsmon ymchwilio i faterion cyn y Cydsyniad Brenhinol hefyd yn helpu i amddiffyn hawliau dynol unigolion sydd wedi dioddef anghyfiawnder neu galedi (sef y bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas bron bob tro).

Gan ystyried yr holl bethau uchod, nid ydw i'n credu ei fod yn torri hawliau dynol.

**2. Ymgynghori â chomisiynwyr, rheoleiddwyr a chynghorwyr statudol eraill**

Cafwyd llawer o drafodaeth ynghylch adrannau 65 a 66 y Bil, sy'n darparu ar gyfer yr Ombwdsmon i weithio gyda chomisiynwyr, rheoleiddwyr a chynghorwyr statudol eraill.

O ran adrannau 65 a 66, maent yn datblygu pethau'n sylweddol o gymharu â Deddf 2005 gan eu bod yn gwneud darpariaeth fwy sylweddol ar gyfer ymgynghori ac yn dod ag amryw o gyrff at ei gilydd. Fel y nodwyd, mae'n **rhaid** i'r Ombwdsmon ymgynghori a hysbysu cyrff o'r fath pan mae'n ystyried ei bod yn **briodol**. O gofio bod yr Ombwdsmon yn ddarostyngedig i egwyddorion cyffredinol cyfraith gyhoeddus (gan gynnwys dyletswydd i weithredu'n rhesymol, yn gymesur ac i ystyried pethau'n berthnasol), nid oes gan yr Ombwdsmon

cymaint o ddisgresiwn o ran beth sy'n briodol, felly mae'r ddyletswydd i hysbysu ac ymgynghori o dan adrannau 65 a 66 yn ddyletswydd bwysig iawn.
Beth bynnag, mae'n **rhaid** i'r Ombwdsmon ymgynghori â'r holl bersonau perthnasol wrth benderfynu p'un a ddylid dechrau ymchwiliad ar liwt ei hun. Mae'r ddyletswydd wedi'i nodi'n glir yn adran 4(3) o'r Bil – nid oes dianc o'r ddyletswydd hon. Rhaid i'r Ombwdsmon ymgynghori â phersonau priodol wrth benderfynu p'un a ddylid dechrau, parhau neu beidio â pharhau ag ymchwiliad ar liwt ei hun. Felly, er enghraifft, os oedd yr Ombwdsmon yn penderfynu p'un a ddylid cynnal ymchwiliad ar liwt ei hun mewn cysylltiad â mater iechyd a oedd hefyd yn berthnasol i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC), yna byddai'n rhaid i'r Ombwdsmon ymgynghori ag AGIC. Os byddai'r Ombwdsmon yn methu gwneud hynny, ni fyddai'n gweithredu o fewn ei bwerau a gallai ei benderfyniad i beidio ag ymgynghori ag AGIC gael ei herio yn y llysoedd.

O ran ymchwiliadau ar liwt ei hun, mae gan yr Ombwdsmon ddyletswydd hefyd y baratoi cynnig ymchwiliad a'i anfon at yr awdurdod rhestredig o dan yr ymchwiliad. Mae hyn wedi'i gynllunio i helpu tryloywder ac i gael pobl i siarad â'i gilydd yn gynnar.

Effaith gronnol yr uchod yw bod y Bil yn cynnwys darpariaeth sylweddol ar gyfer ymgynghori.

**3. Pwerau i weithio gyda Chomisiynydd Plant Cymru**

Cytunaf fod ffordd well o ddelio â'r mater o ran sut mae'r Ombwdsmon a Chomisiynydd Plant Cymru yn cydweithio a bod gosod manylion ar wyneb y Bil yn ddull gwell na gadael y manylion i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth.

Cafwyd trafodaeth a chytundeb rhwng fy swyddogion i a swyddogion Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid ar y pwynt hwn.

**4. Adran 78 - dim pŵer i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol**

Mae adran 78 y Bil yn fersiwn culach o adran 43 o Ddeddf 2005.

Mae adran 43 o Ddeddf 2005 yn cynnwys pŵer i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol a gafodd ei phasio cyn diwedd Sesiwn 2004/2005 Senedd y DU. Felly mae'r pŵer yn adran 43 yn gyfyngedig o ran ei gwmpas.

Nid yw'r pŵer yn adran 43 wedi'i ddefnyddio am 12 mlynedd (11 mlynedd a 10 mis).

Dull arall i gynnwys elfen Harri VIII yn adran 78 o'r Bil fyddai:

- yn gwneud yr holl ddiwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth sylfaenol ar wyneb y Bil, ac
- yn ehangu cwmpas y ddarpariaeth drosiannol yn adran 78(3) y Bil i gynnwys unrhyw welliannau a allai fod wedi'u colli o wyneb y Bil mewn un tro.

Rwy'n hapus i edrych ymhellach ar y diwygiadau canlyniadol sydd eu hangen ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol (ac nad ydynt eisoes wedi'u cyflawni gan adran 78(3)) ac i drafod gydag Ysgrifennydd y Cabinet p'un a allai'r dull amgen uchod adael bylchau o hyd yn y diwygiadau canlyniadol, sy'n golygu y byddai angen cynnwys pŵer Harri VIII yn adran 78 (a ph'un a fyddai hynny'n gyfyngedig i bŵer i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol a wnaed cyn i'r Bil ddod yn Ddeddf, o ran sut roedd adran 43 Deddf 2005 yn gyfyngedig, fel y nodwyd uchod).

## 5. Adennill costau eraill gan ddarparwyr gwasanaethau iechyd preifat

Yr unig gostau y gellid eu hadennill yw'r rhai yr eir iddynt oherwydd bod y darparwr gwasanaethau iechyd preifat wedi rhwystro'r Ombwdsmon.

Nid yw'r Bil yn caniatáu i'r Ombwdsmon adennill costau llawn ymchwiliad oherwydd materion hawliau dynol. Nid yw ymchwilio i awdurdodau rhestredig sy'n gyrff cyhoeddus yn codi'r un pryderon ynghylch hawliau dynol, ond pan fyddwch chi'n symud at gwmnïau preifat, rhaid i chi ystyried hawliau dynol yn ofalus iawn oherwydd gallech chi fod yn ymyrryd â'u heiddo (fel y dysgwyd yn sgil dyfarniad y Goruchaf Lys yn achos y Bil Asbestos).

Os yw'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau (ELGC) yn dymuno edrych ar y posibilrwydd o adennill costau eraill gan ddarparwyr gwasanaethau iechyd preifat yna dylai fod yn seiliedig ar dystiolaeth a dylai fod yn ddarostyngedig i ddadl drylwyr - dyna sut y dylid ymdrin â materion hawliau dynol er mwyn helpu i osgoi'r risg o her gyfreithiol. Os bydd y Pwyllgor ELGC yn cynnal y ddadl honno yna byddwn wrth gwrs yn gwrando ac yn ystyried pa welliannau y gellid eu gwneud i'r Bil.

## 6. Ystyr “hwylus” yn adran 78

Yn ogystal â'r pwyntiau y gwnes i gerbron y Pwyllgor, hoffwn ychwanegu rai egwyddorion pellach sy'n cyfyngu'r ystyr “hwylus” yng nghyd-destun y Bil hwn. Rwy'n derbyn bod gan “hwylus” elfen oddrychol ac nid yn derm cwbl glir. Ond mae yna ddau gyfyngiad pwysig ar y defnydd o bŵer “hwylus”:

- rhaid i Weinidogion Cymru weithredu'n gymesur ac yn rhesymol fel mater o gyfraith cyhoeddus. Felly, er enghraifft, ni all Gweinidogion Cymru ddefnyddio'r pŵer “hwylus” mewn ffordd anghymesur nac mewn ffordd afresymol;

- ni all Gweinidogion Cymru ddefnyddio'r pŵer hwylus (nac unrhyw bŵer arall yn y Bil) mewn ffordd sy'n llesteirio dibenion y Bil. Mae hon yn egwyddor gyfreithiol sefydledig, sy'n cael ei galw yn elfen Padfield, y bydd y llysoedd yn gorfodi. Un pwrpas clir y Bil hwn yw helpu pobl sydd wedi dioddef anghyfiawnder neu galedi, ac ni waeth pa mor eang yw'r pŵer yn y Bil, ni all Gweinidogion Cymru ddefnyddio'r pŵer i lesteirio y diben hwnnw - byddai gwneud hynny yn gweithredu'n anghyfreithlon. Felly, yng nghyd-destun y Bil penodol hwn, mae'n gyfyngiad pwysig iawn ar y defnydd o bwerau.

Ac, wrth gwrs, byddai unrhyw ddefnydd amhriodol o'r pwerau hyn yn cael eu dwyn at sylw'r Pwyllgor, a byddai'r Pwyllgor yn paratoi adroddiad yn beirniadu'r defnydd amhriodol cyn i unrhyw bleidlais ddigwydd yn y Cyfarfod Llawn.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor ELGC, sydd wrthi'n gwneud gwaith craffu Cyfnod 1 ar y Bil. Edrychaf ymlaen yn fawr at ystyried adroddiadau y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a'r Pwyllgor ELGC, gyda'r nod o gyflwyno'r gwelliannau angenrheidiol yng Nghyfnod 2 pe byddai tystiolaeth yn cefnogi eich barn.

Yn gywir



Simon Thomas AC

Cadeirydd

*Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.*

*We welcome correspondence in Welsh or English*

**Vaughan Gething AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf / Our ref MAL/VG/0072/18

Simon Thomas AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid

9 Chwefror 2018

Annwyl Simon,

Ar 7 Rhagfyr, bûm yn y Pwyllgor Cyllid a rhoddais dystiolaeth ynghylch Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru). Yn fy llythyr yn rhoi diweddariad ichi ynghylch y sefyllfa, dyddiedig 21 Rhagfyr 2017, ymrwymais i ysgrifennu i'r Pwyllgor ynglŷn â'r trafodaethau a oedd yn cael eu cynnal rhwng Llywodraeth Cymru a Thrysorlys Ei Mawrhydi mewn perthynas ag effeithiau bras y Bil a'r fframwaith cyllidol.

Mae swyddogion Trysorlys Cymru wedi trafod y polisi â swyddogion o Drysorlys Ei Mawrhydi yng nghyd-destun y trefniadau cyllid a nodwyd yn y Polisi Datganiad Cyllid a'r fframwaith cyllidol. Rydym hefyd wedi rhannu'r Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) gyda Thrysorlys Ei Mawrhydi ac rydym yn barod i ddechrau trafod manylion y Bil fel sy'n briodol. Mae'r fframwaith cyllidol yn dweud mai dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y bydd effeithiau ymddygiadol yn cael eu hystyried. Nid oes disgwyl i addasiadau ariannol gael eu gwneud yn sgil cyflwyno isafbris am alcohol.

Yn gywir,

Vaughan Gething

**Vaughan Gething AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Eitem 3

# Cynnig y Gyllideb Atodol 2017-18

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid*

*Chwefror 2018*

## Cynnig y Gyllideb Atodol

**1. Gofynnir i'r Cynulliad gytuno ar y canlynol**

- Gwneir y penderfyniad hwn ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2019 gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad") yn unol ag Adran 126 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

2. 2. Dylai'r Cynnig Blynyddol hwn ar gyfer y Gyllideb Atodol gael ei ddarllen ochr yn ochr â dogfennau'r gyllideb a gyhoeddwyd ar 6 Chwefror 2018.

Llywodraeth Cymru

3. Awdurdodir Llywodraeth Cymru -

(a) i ddefnyddio adnoddau (heb gynnwys adnoddau cronnus) yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2018 ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Atodlen 1, hyd at uchafswm y symiau cyfatebol a nodir yng Ngholofn 2 yr Atodlen honno;

(b) yn ogystal, i gadw incwm, yn y categorïau adnoddau cronnus a nodir yng Ngholofn 1 o bob Rhan o Atodlen 2, yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2018, ar gyfer ei ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yn y mannau cyfatebol yng Ngholofn 2 o bob Rhan o'r Atodlen honno, hyd at y terfyn a nodir ar gyfer pob Rhan o'r Atodlen honno; ac

(c) i gymryd arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru i'w ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yn Atodlen 1, hyd at derfyn y gofyniad net am arian parod a nodir yn Atodlen 5.

4. Er gwaethaf paragraffau 2(a) a (b), caiff yr adnoddau y gellir eu defnyddio ar gyfer y gwasanaethau a'r dibenion a bennir yng Ngholofn 1 o Atodlen 1 (neu, fel y bo'n briodol, yng Ngholofn 2 o bob Rhan o Atodlen 2), fod yn uwch na'r swm a bennir yn y cofnod cyfatebol yng Ngholofn 2 o Atodlen 1 (neu, fel y bo'n briodol, ym mhob rhan o Atodlen 2)-

(a) os bodlonir yr amod cyntaf, yn achos adnoddau heb gynnwys adnoddau cronnus, neu

(b) os bodlonir yr ail amod, yn achos adnoddau cronnus.

5. Yr amod cyntaf yw nad yw cyfanswm yr adnoddau (heb gynnwys adnoddau cronnus) a ddefnyddir yn ystod y flwyddyn ariannol yn dod i ben 31 Mawrth 2018 ar gyfer yr holl wasanaethau a dibenion a bennir yng Ngholofn 1 o Atodlen 1 yn uwch na chyfanswm y symiau a bennir yng Ngholofn 2 o'r Atodlen honno.

6. Yr ail amod yw nad yw cyfanswm yr adnoddau cronnus a ddefnyddir yn ystod y flwyddyn ariannol yn dod i ben 31 Mawrth 2018 ar gyfer yr holl wasanaethau a dibenion a bennir yng Ngholofn 2 o Atodlen 2 yn uwch na chyfanswm y symiau a bennir ar gyfer pob rhan o'r Atodlen honno.

Comisiwn y Cynulliad

7. Awdurdodir Comisiwn y Cynulliad -

(a) i ddefnyddio adnoddau (heb gynnwys adnoddau cronnus) yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2018 ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 1 o Atodlen 3, hyd at uchafswm y symiau cyfatebol a nodir yng Ngholofn 2 o Ran 1 o Atodlen 3;

(b) yn ogystal, i gadw incwm, yn y categorïau adnoddau cronnus a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 1 o Atodlen 4, yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2018, ar gyfer ei ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yn y mannau cyfatebol yng Ngholofn 2 o Ran 1 o'r Atodlen honno, hyd at y terfyn a nodir ar gyfer Rhan 1 o'r Atodlen honno; ac

(c) i gymryd arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru i'w ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 1 o Atodlen 3, hyd at derfyn y gofyniad net am arian parod a nodir yn Atodlen 5.

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

8. Awdurdodir Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru -

(a) i ddefnyddio adnoddau (heb gynnwys adnoddau cronnus) yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2018 ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 2 o Atodlen 3, hyd at uchafswm y symiau cyfatebol a nodir yng Ngholofn 2 o Ran 2 o Atodlen 3;

(b) yn ogystal, i gadw incwm, yn y categorïau adnoddau cronnus a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 2 o Atodlen 4, yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2018, ar gyfer ei ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yn y mannau cyfatebol yng Ngholofn 2 o Ran 2 o'r Atodlen honno, hyd at y terfyn a nodir ar gyfer Rhan 2 o'r Atodlen honno; ac

(c) i gymryd arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru i'w ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 2 o Atodlen 3, hyd at derfyn y gofyniad net am arian parod a nodir yn Atodlen 5.

Swyddfa Archwilio Cymru

9. Awdurdodir Swyddfa Archwilio Cymru -

(a) i ddefnyddio adnoddau (heb gynnwys adnoddau cronnus) yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2018 ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 3 o Atodlen 3, hyd at uchafswm y symiau cyfatebol a nodir yng Ngholofn 2 o Ran 3 o Atodlen 3;

(b) yn ogystal, i gadw incwm, yn y categorïau adnoddau cronnus a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 3 o Atodlen 4, yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2018, ar gyfer ei ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yn y mannau cyfatebol yng Ngholofn 2 o Ran 3 o'r Atodlen honno, hyd at y terfyn a nodir ar gyfer Rhan 3 o'r Atodlen honno; ac

(c) i gymryd arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru i'w ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 3 o Atodlen 3, hyd at derfyn y gofyniad net am arian parod a nodir yn Atodlen 5.

Manyleb y Categorïau o Adnoddau Cronnus

10. Mae’r categorïau o adnoddau cronnus a restrir yng Ngholofn 1 o bob Rhan o Atodlen 2, ac yng Ngholofn 1 o bob Rhan o Atodlen 4, yn gategorïau penodedig at ddibenion Adran 120(2)(a) o’r Ddeddf.

## Crynodeb o'r Gofynion Adnoddau a Chyfalaf

### *Gweinidogion Cymru*

| **Cwmpas** | **Adnoddau (£000)** | **Adnoddau Cronnus (£000)** |
|---|---|---|
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 7,750,505 | 42,844 |
| Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus | 4,285,818 | 14,082 |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 1,297,794 | 77,207 |
| Addysg | 2,534,740 | 193,949 |
| Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig | 376,888 | 297,556 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 335,096 | 287,719 |
| **Cyfanswm yr Adnoddau y Gofynnir Amdanynt a'r Incwm Cronnus mewn perthynas â Gweinidogion Cymru** | **16,580,841** | **913,357** |

***Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol***

| **Cwmpas** | **Adnoddau (£000)** | **Adnoddau Cronnus (£000)** |
|---|---|---|
| Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru | 54,445 | 300 |
| Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | 4,248 | 32 |
| Swyddfa Archwilio Cymru | 7,231 | 14,694 |
| **Cyfanswm yr Adnoddau a'r Incwm Cronnus ar gyfer Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol** | **65,924** | **15,026** |

## Atodlen 1 – Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru

| Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronnus) | |
|---|---|
| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
| **Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**<br><br>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gan gynnwys hybu, gwella neu gefnogi llesiant economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol.<br><br>Cyflenwi gwasanaethau GIG craidd a gwasanaethau GIG wedi'u targedu, gan gynnwys namau a darpariaethau; cefnogi addysg a hyfforddiant i weithlu'r GIG, polisïau a deddfwriaeth iechyd meddwl, hosbisau a chyflawni cynllun gweithredu'r strategaeth camddefnyddio sylweddau; noddi cyrff iechyd cyhoeddus, yr Asiantaeth Safonau Bwyd; rhaglenni iechyd y cyhoedd; trefniadau effeithiol i baratoi ar gyfer argyfwng iechyd; datblygu a gweithredu ymchwil a datblygu er budd cleifion a'r cyhoedd; gofal a chymorth cymdeithasol, partneriaethau ac integreiddio, gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy, Gofal Cymdeithasol Cymru; cyllid ar gyfer y Comisiynydd Pobl Hŷn; cyllid ar gyfer y Comisiynydd Plant a Cafcass; gwariant ar gefnogi plant ac unrhyw wariant cysylltiedig a defnydd o adnoddau anghyllidol. | **7,750,505** |

| **Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronnus)** | |
|---|---|
| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
| **Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus**<br><br>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar lywodraeth leol gan gynnwys hybu, gwella neu gefnogi llesiant economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol.<br><br>Cyllido, gan gynnwys cyllid cyfalaf cyffredinol, cymorth cyllid i lywodraeth leol a gwasanaethau prisio; meithrin democratiaeth leol; gwella llywodraeth leol; Academi Wales; cefnogi cydweithredu a diwygio; ymyrryd yn gynnar, atal a chymorth; cynhwysiant ariannol a'r Trydydd Sector; gwasanaethau tân ac achub a chydnerthedd; hybu ymgysylltiad cadarnhaol ar gyfer pobl ifanc; cefnogi pobl; atal digartrefedd; byw'n annibynnol; cynyddu'r cyflenwad a'r dewis o dai fforddiadwy; cyllid refeniw tai; adfywio; cyllido'r Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Estyn; cyfleusterau cymunedol; y gronfa gofal integredig; sicrhau tai o ansawdd; cynyddu'r cyflenwad a'r dewis o dai'r farchnad agored, ac unrhyw wariant cysylltiedig a defnydd o adnoddau anghyllidol. | **4,285,818** |

| **Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronnus)** | |
|---|---|
| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
| **Yr Economi a Thrafnidiaeth**<br><br>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar yr Economi a Thrafnidiaeth gan gynnwys hybu a chefnogi llesiant economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol busnesau, unigolion, cymunedau a lleoedd yng Nghymru.<br><br>Gwariant ar sectorau, entrepreneuriaeth a gwybodaeth fusnes; arloesi; gwyddoniaeth; digwyddiadau mawr; darparu seilwaith TGCh a seilwaith sy'n gysylltiedig ag eiddo; rhaglenni corfforaethol a strategol; Banc Datblygu Cymru; Cyllid Cymru; gweithrediadau traffyrdd a chefnffyrdd; gwella a chynnal y rhwydwaith cefnffyrdd; gwasanaethau a buddsoddiadau ffyrdd, rheilffyrdd, awyr a môr; teithio cynaliadwy; gwella diogelwch ar y ffyrdd; cefnogi a chynnal sector celfyddydau cryf trwy Gyngor y Celfyddydau ac eraill; annog defnyddio a dysgu gydol oes trwy wasanaethau amgueddfeydd a llyfrgelloedd; arweinyddiaeth strategol ar gyfer gwasanaethau amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd; y cyfryngau a chyhoeddi; cadw, gwarchod, cynnal a hyrwyddo mynediad at yr amgylchedd hanesyddol a naturiol; hyrwyddo chwaraeon a bywydau gweithgar drwy Chwaraeon Cymru ac eraill ac unrhyw wariant cysylltiedig a defnydd o adnoddau anghyllidol sy’n rhoi budd economaidd ehangach i Gymru. | **1,297,794** |

| Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronnus) | |
|---|---|
| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
| **Addysg**<br><br>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar Addysg gan gynnwys hybu, gwella neu gefnogi llesiant economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol.<br><br>Gwariant ar safonau addysg a hyfforddiant, gan gynnwys llythrennedd a rhifedd, cwricwlwm, addysgu ac arweinyddiaeth, cymwysterau, addysg ôl-16, addysg uwch, grant amddifadedd disgyblion, TGCh a systemau rheoli gwybodaeth, a darpariaeth TG ac ystadau; ymgysylltiad a chyflogaeth ieuenctid; llesiant plant a phobl ifanc; cymorth i ddysgwyr ôl-16; ennyn diddordeb disgyblion; y Gymraeg mewn addysg; yr iaith Gymraeg; cymorth cyflawni; dysgu seiliedig ar waith; cyflwyno cymorth ar gyfer sgiliau; polisi sgiliau; cyflogaeth a sgiliau; dewis addysgol a gyrfaoedd ac unrhyw wariant cysylltiedig a defnydd o adnoddau anghyllidol. | **2,534,740** |

| **Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronnus)** | |
|---|---|
| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
| **Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig**<br><br>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, gan gynnwys hybu, gwella neu gefnogi llesiant economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol.<br><br>Datblygu a gweithredu polisi a rhaglenni cyffredinol ar ddatblygu cynaliadwy a rheoli cyfoeth naturiol, amaethyddiaeth, bwyd a'r môr; datblygu a gweithredu polisi newid yn yr hinsawdd, effeithlonrwydd ynni, Twf Gwyrdd, seilwaith gwyrdd, diogelu'r amgylchedd, perygl o lifogydd a pherygl i'r arfordir, a pholisi a deddfwriaeth dŵr a charthion; rheoli a gweithredu'r strategaeth wastraff a'r rhaglen caffael gwastraff; Cynllun Cymunedau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi; darparu polisïau gwarchod natur a choedwigaeth; noddi a rheoli cyrff cyflawni; datblygu sylfaen dystiolaeth briodol i ategu gwaith Adran yr Amgylchedd a Materion Gwledig.; gwarchod iechyd anifeiliaid, planhigion a gwenyn a datblygu polisïau addasu genetig; hyrwyddo a chefnogi tirweddau gwarchodedig a mynediad ehangach at fannau gwyrdd; cynllunio a rheoleiddio; gweinyddu a chyflawni'r Polisi Amaethyddol Cyffredin; darparu'r rhaglenni yn y Cynllun Datblygu Gwledig; cefnogi newydd-ddyfodiaid i ffermio, ffermwyr a chymunedau gwledig Cymru; datblygu ar sail tystiolaeth ar gyfer materion gwledig; datblygu a rheoli môr, pysgodfeydd a dyframaethu Cymru gan gynnwys gorfodi pysgodfeydd Cymru; datblygu a marchnata bwyd a diod Cymru, ac unrhyw wariant cysylltiedig a defnydd o adnoddau anghyllidol. | **376,888** |

| Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronnus) | |
|---|---|
| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
| **Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu**<br><br>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, gan gynnwys hybu, gwella neu gefnogi llesiant economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol.<br><br>Datblygu a gweithredu polisi a rhaglenni cyffredinol ar ddatblygu cynaliadwy a rheoli cyfoeth naturiol, amaethyddiaeth, bwyd a'r môr; datblygu a gweithredu polisi newid yn yr hinsawdd, effeithlonrwydd ynni, Twf Gwyrdd, seilwaith gwyrdd, diogelu'r amgylchedd, perygl o lifogydd a pherygl i'r arfordir, a pholisi a deddfwriaeth dŵr a charthion; rheoli a gweithredu'r strategaeth wastraff a'r rhaglen caffael gwastraff; Cynllun Cymunedau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi; darparu polisïau gwarchod natur a choedwigaeth; noddi a rheoli cyrff cyflawni; datblygu sylfaen dystiolaeth briodol i ategu gwaith Adran yr Amgylchedd a Materion Gwledig.; gwarchod iechyd anifeiliaid, planhigion a gwenyn a datblygu polisïau addasu genetig; hyrwyddo a chefnogi tirweddau gwarchodedig a mynediad ehangach at fannau gwyrdd; cynllunio a rheoleiddio; gweinyddu a chyflawni'r Polisi Amaethyddol Cyffredin; darparu'r rhaglenni yn y Cynllun Datblygu Gwledig; cefnogi newydd-ddyfodiaid i ffermio, ffermwyr a chymunedau gwledig Cymru; datblygu ar sail tystiolaeth ar gyfer materion gwledig; datblygu a rheoli môr, pysgodfeydd a dyframaethu Cymru gan gynnwys gorfodi pysgodfeydd Cymru; datblygu a marchnata bwyd a diod Cymru, ac unrhyw wariant cysylltiedig a defnydd o adnoddau anghyllidol. | **335,096** |

# Atodlen 2 – Defnydd o adnoddau cronnus gan Weinidogion Cymru

## Rhan 1: Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

| ***Colofn 1***<br><br>*Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Mae'r adnoddau cronnus yn cynnwys incwm o dan y Cynllun Rheoleiddio Prisiau Fferyllol; incwm mewn perthynas â setliadau hawliadau cyfreithiol; tâl am lety, nwyddau a gwasanaethau i gleifion preifat, cleifion y GIG, awdurdodau lleol ac eraill; ad-daliadau cyllid Buddsoddi i Arbed gan Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG Cymru; incwm oddi wrth Lywodraeth yr Alban, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, yr Adran Iechyd, adrannau llywodraeth eraill a'r Undeb Ewropeaidd; incwm o hysbysiadau cosb benodedig a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013: cynlluniau creu incwm; incwm anweithredol drwy werthu tir, adeiladau, cerbydau, offer ac eiddo, ac adennill TAW; incwm o gynlluniau a chytundebau ad-dalu. | Mae'r gwasanaethau a'r dibenion yn cynnwys gwariant ar wasanaethau iechyd sylfaenol a chymunedol; gwariant gan Ymddiriedolaethau GIG Cymru, Byrddau Iechyd Lleol a darparwyr gofal iechyd cysylltiedig yn prynu neu'n caffael asedau sefydlog; cefnogaeth i ddarparu a gweinyddu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **42,844** |

## Rhan 2: Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus

| ***Colofn 1***<br><br>*Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Mae’r adnoddau cronnus yn cynnwys arian grant oddi wrth y Comisiwn Ewropeaidd; ad-daliadau ac adennill taliadau grant ac adennill TAW; ffioedd a thaliadau a godwyd am gynnal arolygiadau a gwasanaethau rheoleiddio; incwm o werthiant asedau cyfalaf; incwm o ad-daliadau’r Grant Tai Cymdeithasol; darparu digwyddiadau hyfforddi a datblygu; ad-daliadau darparwyr hyfforddiant; taliadau am gofrestriadau deintyddol; incwm o secondiadau staff; ad-daliadau benthyciadau staff; incwm o rentu eiddo; iawndal o dan setliadau masnachol a sifil a chodi ffioedd hwyluso; incwm o werthiant asedau cyfalaf. | Mae’r gwasanaethau a’r dibenion yn cynnwys costau rhedeg, costau gweinyddu cyffredinol a gwariant adnoddau’r Arolygiaethau a’r Tribiwnlys Prisio; darparu ymyriadau hyfforddiant i Wasanaeth Cyhoeddus Cymru;<br>gwariant ategol ar gymunedau mwy diogel ac adfywio; talu grantiau i awdurdodau lleol a chyrff y Trydydd Sector;<br>pob prosiect sy’n cael arian Ewropeaidd; ac i gefnogi’r holl wariant sydd wedi’i nodi yn y Cwmpas gwariant. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **14,082** |

**Rhan 3: Yr Economi a Thrafnidiaeth**

| ***Colofn 1***<br><br>*Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Adnoddau cronnus ac arian naill ai yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan y Comisiwn Ewropeaidd; rhentu eiddo ac incwm cysylltiedig arall;taliadau gwasanaethau busnes; cyfraniadau prosiect gan gyrff eraill yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat; incwm o fuddsoddiadau; ad-daliadau grant a chyllid busnes ad-daladwy; incwm o werthu asedau cyfalaf; incwm yn gysylltiedig â gweithgarwch twristiaeth; derbyniadau o astudiaethau trafnidiaeth; iawndal o dan setliadau masnachol a sifil a chodi ffioedd hwyluso; incwm Cadw a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru o godi tâl mynediad ar eu safleoedd a gwariant gweithredol arall; ac adennill TAW. | Pob prosiect sy'n cael arian Ewropeaidd ac i gefnogi'r holl wariant sydd wedi'i nodi yn y Cwmpas gwariant. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **77,207** |

## Rhan 4: Addysg

| ***Colofn 1*** *Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2*** *Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Mae’r adnoddau cronnus yn cynnwys incwm o brosiectau Ewropeaidd, ymchwil a gwerthuso; breindaliadau cwricwlwm; adennill Benthyciadau Myfyrwyr; arian o gronfa Cyfalaf Ymchwil Addysg Uwch; gwerthu cyhoeddiadau ac adennill TAW.<br>Mae’r adnoddau cronnus yn cynnwys ad-daliadau ac adennill taliadau grant; ffioedd a thaliadau a godwyd am gynnal arolygiadau a gwasanaethau rheoleiddio; darparu digwyddiadau hyfforddi a datblygu; incwm o secondiadau staff; ad-daliadau benthyciadau staff; incwm o werthiant asedau cyfalaf; adennill benthyciadau a wnaethpwyd ac unrhyw daliadau llog arnynt; adenillion a grantiau ad hoc o ffynonellau eraill. | Mae’r gwasanaethau a’r dibenion yn cynnwys cefnogi prosiectau Ewropeaidd, Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru, datblygu rhaglenni, gwariant cyfredol ar ymchwil a gwerthuso; i gefnogi gwariant cyfredol ar y cwricwlwm ac i gefnogi pob gwariant sydd wedi’i nodi yn y Cwmpas gwariant. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **193,949** |

**Rhan 5: Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig**

| ***Colofn 1***<br><br>*Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Mae’r adnoddau cronnus yn cynnwys arian naill ai yn uniongyrchol neu’n anuniongyrchol gan y Comisiwn Ewropeaidd, gan gynnwys incwm o gronfeydd strwythurol Ewropeaidd; incwm o'r UE i gefnogi ffermwyr a chymunedau gwledig yng Nghymru; incwm o brosiectau ffermydd gwynt; incwm o Fferm Pwllpeiran; incwm o werthu asedau cyfalaf, gan gynnwys adeiladau; incwm o adennill grantiau o’r awdurdodau lleol, cyrff y trydydd sector a chyrff eraill y sector cyhoeddus a'r sector preifat; dirwyon cosb sifil yn gysylltiedig â chynlluniau masnachu allyriadau; incwm o drwyddedau morol; incwm o achub carcasau o anifeiliaid sydd wedi’u lladd ar gyfer rheoli clefydau; grantiau ad hoc o ffynonellau eraill ac adennill TAW; arian o adrannau eraill y llywodraeth ganolog ac incwm sy'n gysylltiedig â'r Amgylchedd a Materion Gwledig. | Mae’r gwasanaethau a’r dibenion yn cynnwys gwariant sy’n ymwneud â Fferm Pwllpeiran; taliadau grant, cynlluniau a ariennir yn rhannol gan adrannau eraill o’r llywodraeth; pob prosiect sy’n cael arian Ewropeaidd ac i gefnogi'r holl wariant sydd wedi’i nodi yn y Cwmpas gwariant. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **297,556** |

**Rhan 6: Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu**

| ***Colofn 1***<br><br>*Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Mae'r adnoddau cronnus yn cynnwys incwm o secondio staff a ffioedd staff; ad-dalu benthyciadau staff; adennill taliadau grant; ad-dalu didyniadau statudol o dan PAYE; adennill TAW; gwerthu tir ac adeiladau ac asedau cyfalaf; is-osod eiddo; gwerthu asedau gweinyddol; gwerthu nwyddau a gwasanaethau; incwm gweinyddol; incwm o wasanaethau TGCh a ddarparwyd; ad-daliadau darparwyr hyfforddiant; adennill y costau a rennir â chyrff eraill yn y sector cyhoeddus; derbyniadau o grantiau adenilladwy gan gynnwys derbyniadau Buddsoddi i Arbed; a chyllid naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol oddi wrth y Comisiwn Ewropeaidd. | Mae'r gwasanaethau a'r dibenion yn cynnwys ariannu: costau cynnal a gwariant gweinyddol cyffredinol; cefnogi gwariant cyfalaf ar sylfaen ystadau ac asedau Llywodraeth Cymru; pob prosiect sy'n cael arian Ewropeaidd; talu grantiau i awdurdodau lleol a chyrff y Trydydd Sector; ac i gefnogi gwariant a nodwyd o fewn y Cwmpas Gwariant. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **287,719** |

## Atodlen 3 – Gwariant Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol (heb gynnwys adnoddau cronnus)

### Rhan 1 – Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru

| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
|---|---|
| Adnoddau heblaw adnoddau cronnus i'w defnyddio gan Gomisiwn y Cynulliad ar gostau adnoddau a chyfalaf sy'n gysylltiedig â gweinyddu a gweithredu Gwasanaethau'r Cynulliad i gefnogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru ('y Cynulliad'); hyrwyddo'r Cynulliad gan gynnwys taliadau i'r Comisiwn Etholiadol ac eraill; taliadau mewn perthynas â'r Comisiynydd Safonau a'r Bwrdd Cydnabyddiaethau Ariannol; unrhyw daliadau eraill sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Cynulliad neu swyddogaethau Comisiwn y Cynulliad. Adnoddau heblaw adnoddau cronnus i'w defnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â phenderfyniadau'r Bwrdd Cydnabyddiaethau Ariannol a gwariant yn ymwneud â darpariaeth pensiynau Aelodau'r Cynulliad. | **54,445** |

### Rhan 2 - Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
|---|---|
| Adnoddau heblaw adnoddau cronnus i'w defnyddio gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ('yr Ombwdsmon') ar gostau adnoddau a chyfalaf sy'n gysylltiedig â gweinyddu swyddfa'r Ombwdsmon; taliadau i gymdeithas Ombwdsmyn Prydain ac Iwerddon; taliadau i'r Sefydliad Ombwdsmyn Rhyngwladol; ac eitemau anghyllidol cysylltiedig. | **4,248** |

### Rhan 3 – Swyddfa Archwilio Cymru

| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
|---|---|
| Adnoddau heblaw adnoddau cronnus i'w defnyddio gan Swyddfa Archwilio Cymru ar gyflawni swyddogaethau statudol Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol, ac ar weinyddu Swyddfa Archwilio Cymru. | **7,231** |

## Atodlen 4 – Defnydd o Adnoddau Cronnus gan Gyrff a Ariennir yn Uniongyrchol

### Rhan 1 – Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru

| ***Colofn 1*** *Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2*** *Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Adnoddau cronnus i'w cadw yn unol ag adran 120(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac i'w defnyddio gan Gomisiwn y Cynulliad ar gyfer gwaredu asedau sefydlog ac incwm cyfalaf arall; incwm rhenti; rhoddion; cymorth grant; ailgodi tâl; incwm o werthiant masnachol a gwasanaethau eraill a ddarperir i'r cyhoedd ac eraill. | I'w defnyddio i brynu neu gaffael asedau sefydlog ac i'w defnyddio i dalu costau gweinyddol y Cynulliad. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **300** |

### Rhan 2 – Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

| ***Colofn 1*** *Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2*** *Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Incwm o werthiant masnachol a gwasanaethau eraill a ddarperir i'r cyhoedd ac eraill. | I'w defnyddio ar wasanaethau cysylltiedig ac ar weinyddu gwasanaeth yr Ombwdsmon. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **32** |

**Rhan 3 – Swyddfa Archwilio Cymru**

| ***Colofn 1***<br><br>*Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Adnoddau cronnus o ffioedd a thaliadau am wasanaethau archwilio, ardystio grantiau a gwasanaethau cysylltiedig; grantiau a dderbynnir i ariannu gwasanaethau archwilio; adennill costau eraill sy'n gysylltiedig â swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol neu Swyddfa Archwilio Cymru; amryfal incwm o gyhoeddiadau, cynadleddau, darparu gwasanaethau gweinyddol, proffesiynol a thechnegol; adennill costau, er enghraifft staff wedi'u secondio, benthyciadau i staff, taliadau lesio ceir; adennill unrhyw gostau yr eir iddynt ar ran trydydd parti; a llog a dderbynnir ar falansau gwaith. | I'w defnyddio gan Swyddfa Archwilio Cymru ar gyflawni swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol ac ar wasanaethau cysylltiedig â gweinyddu Swyddfa Archwilio Cymru. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **14,694** |

## Atodlen 5: Cysoni Adnoddau ag Arian Parod – 2017-18 (£000)

***Tabl 1: Cysoni Adnoddau ag arian parod ar gyfer 2017-18 a gynhwysir yng Nghynnig y Gyllideb Flynyddol Mehefin 2017 (£000)***

| | Gweinidogion Cymru | Comisiwn y Cynulliad | Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus | Swyddfa Archwilio Cymru |
|---|---|---|---|---|
| **Gofyniad Adnoddau Net** | 14,724,942 | 53,245 | 4,223 | 6,526 |
| **Gofyniad Cyfalaf Net** | 958,474 | 500 | 25 | 380 |
| Addasiadau: | | | | |
| Taliadau cyfalaf | -353,812 | -2,600 | -80 | -200 |
| Amhariadau | -191,117 | 0 | 0 | 0 |
| Symudiadau yn y darpariaethau | -108,828 | -1,200 | -20 | 0 |
| Elw/Colled wrth werthu asedau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Symudiadau mewn stociau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Symudiadau mewn dyledwyr/credydwyr | 0 | 300 | 0 | 0 |
| Defnyddio darpariaethau | 0 | 0 | 42 | 0 |
| Arall | 0 | 0 | 20 | 0 |
| **Gofyniad Arian Parod Net i ddod o Gronfa Gyfunol Cymru** | **15,029,659** | **50,245** | **4,210** | **6,706** |

***Tabl 2: Newidiadau i Gysoni Adnoddau ag arian parod a gynhwysir yng Nghynnig Atodol y Gyllideb hon (£000)***

| | Gweinidogion Cymru | Comisiwn y Cynulliad | Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus | Swyddfa Archwilio Cymru |
|---|---|---|---|---|
| **Gofyniad Adnoddau Net** | 506,242 | 700 | 0 | 325 |
| **Gofyniad Cyfalaf Net** | 391,183 | 0 | 0 | 0 |
| Addasiadau: | | | | |
| Taliadau cyfalaf | -9,700 | 0 | 0 | 0 |
| Amhariadau | -173,881 | 0 | 0 | 0 |
| Symudiadau yn y darpariaethau | -147,000 | -700 | 0 | 0 |
| Elw/Colled wrth werthu asedau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Symudiadau mewn stociau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Symudiadau mewn dyledwyr/credydwyr | 60,000 | 0 | 0 | 0 |
| Defnyddio darpariaethau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Arall | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Gofyniad Arian Parod Net i ddod o Gronfa Gyfunol Cymru** | **626,844** | **0** | **0** | **325** |

***Tabl 3: Cysoni Adnoddau ag arian parod a gynhwysir yng Nghynnig Atodol y Gyllideb hon (£000)***

| | Gweinidogion Cymru | Comisiwn y Cynulliad | Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus | Swyddfa Archwilio Cymru |
|---|---|---|---|---|
| **Gofyniad Adnoddau Net** | 15,231,184 | 53,945 | 4,223 | 6,851 |
| **Gofyniad Cyfalaf Net** | 1,349,657 | 500 | 25 | 380 |
| Addasiadau: | | | | |
| Taliadau cyfalaf | -363,512 | -2,600 | -80 | -200 |
| Amhariadau | -364,998 | 0 | 0 | 0 |
| Symudiadau yn y darpariaethau | -255,828 | -1,900 | -20 | 0 |
| Elw/Colled wrth werthu asedau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Symudiadau mewn stociau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Symudiadau mewn dyledwyr/credydwyr | 60,000 | 300 | 0 | 0 |
| Defnyddio darpariaethau | 0 | 0 | 42 | 0 |
| Arall | 0 | 0 | 20 | 0 |
| **Gofyniad Arian Parod Net i ddod o Gronfa Gyfunol Cymru** | **15,656,503** | **50,245** | **4,210** | **7,031** |

**Nodiadau:**

1. Mae cynnwys a fformat y tabl hwn yn cydymffurfio ag Adran 125(1)(c) a 126(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (“y Ddeddf”). Mae’r Adran hon yn pennu bod yn rhaid, er mwyn awdurdodi’r cynnig, gael datganiad sy’n awdurdodi “the amount which may be paid out of the Welsh Consolidated Fund in the financial year to the relevant persons, or for use pursuant to a relevant enactment, for the purposes so specified”. Gwneir y taliadau o Gronfa Gyfunol Cymru mewn arian parod, felly mae’r tabl hwn yn dangos y gofynion perthnasol o ran arian parod i gefnogi’r adnoddau y gofynnir amdanynt i gefnogi Atodlen 1 i 4, sy’n rhestru’r dibenion perthnasol y gellir defnyddio adnoddau ar eu cyfer.

2. Mae cynnwys a fformat y tabl hwn hefyd yn cydymffurfio â Rheol Sefydlog 20.28(v), sy’n pennu bod yn rhaid i gynnig y gyllideb gynnwys cysoniad o’r adnoddau sydd i’w hawdurdodi o dan Adran 125(1)(a) a (b) o’r Ddeddf â’r symiau sydd i’w hawdurdodi i’w talu o Gronfa Gyfunol Cymru o dan Adran 125(c) o’r Ddeddf.

3. Cyflwynir y tablau hyn o dan Adran 126 o’r Ddeddf a Rheol Sefydlog 20.31 yn dangos amrywiadau i’r adnoddau a ddyrennir yng Nghynnig y Gylideb Flynyddol a’r symiau i’w talu o Gronfa Gyfunol Cymru.

.

## Atodlen 6: Cysoni adnoddau y gofynnir amdanynt yng Nghynnig y gyllideb â'r adnoddau a ddarperir gan y Trysorlys ar gyfer Bloc Cymru ar gyfer 2017-18

### *Tabl 1: Cysoni Adnoddau y Gofynnir amdanynt yng Nghynnig y Gyllideb Flynyddol Mehefin 2017 â'r adnoddau a ddarperir gan y Trysorlys ar gyfer Cymru (£000)*

| | 2017-18 (£000) | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **DEL Adnoddau** | **DEL Cyfalaf** | **AME Adnoddau** | **AME Cyfalaf** | **Cyfanswm** |
| *Adnoddau y gofynnir amdanynt yng Nghynnig y Gyllideb:* | | | | | |
| - Gweinidogion Cymru | 14,495,982 | 445,077 | 228,960 | 513,397 | 15,683,416 |
| - Comisiwn y Cynulliad | 52,045 | 500 | 1,200 | 0 | 53,745 |
| - Ombwdsmon | 4,203 | 25 | 20 | 0 | 4,248 |
| - Swyddfa Archwilio Cymru | 6,526 | 380 | 0 | 0 | 6,906 |
| **Cyfanswm yr adnoddau y gofynnir amdanynt yng Nghynnig y Gyllideb Flynyddol** | **14,558,756** | **445,982** | **230,180** | **513,397** | **15,748,315** |
| *Addasiadau:* | | | | | |
| (i) Defnydd adnoddau gan Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru | 54,558 | 0 | 10,913 | 0 | 65,471 |
| (ii) Grantiau | -955,252 | 955,252 | 0 | 0 | 0 |
| (iii) Benthyca â chymorth | 0 | 88,800 | 0 | 0 | 88,800 |
| (iv) Taliadau a godir yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru | 2,343 | 104 | 1,059,000 | 0 | 1,061,447 |
| (v) Arall | 14,561 | 0 | 0 | 0 | 14,561 |
| **Cyfanswm Gwariant a Reolir – Gweinidogion Cymru a Chyrff a Noddir yn Uniongyrchol** | **13,674,966** | **1,490,138** | **1,300,093** | **513,397** | **16,978,594** |
| - Swyddfa Cymru | 4,560 | 30 | 0 | 0 | 4,590 |
| - Benthyca | 0 | -20,000 | 0 | 20,000 | 0 |
| - Cronfa wrth gefn heb ei chlustnodi | 340,371 | 136,545 | 0 | 0 | 476,916 |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir (Bloc)** | **14,019,897** | **1,606,713** | **1,300,093** | **533,397** | **17,460,100** |

***Tabl 2: Newidiadau i Gysoni Adnoddau y Gofynnir amdanynt yng Nghynnig y Gyllideb Flynyddol Rhagfyr 2016 â'r adnoddau a ddarperir gan y Trysorlys ar gyfer Cymru (£000)***

| | **2017-18 (£000)** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **DEL Adnoddau** | **DEL Cyfalaf** | **AME Adnoddau** | **AME Cyfalaf** | **Cyfanswm** |
| *Adnoddau y gofynnir amdanynt yng Nghynnig y Gyllideb:* | | | | | |
| - Gweinidogion Cymru | 395,191 | 371,718 | 111,051 | 19,465 | 897,425 |
| - Comisiwn y Cynulliad | 0 | 0 | 700 | 0 | 700 |
| - Ombwdsmon | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| - Swyddfa Archwilio Cymru | 325 | 0 | 0 | 0 | 325 |
| **Cyfanswm yr adnoddau y gofynnir amdanynt yng Nghynnig y Gyllideb Atodol** | **395,516** | **371,718** | **111,751** | **19,465** | **898,450** |
| *Addasiadau:* | | | | | |
| (i) Defnydd adnoddau gan Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru | -4,700 | 0 | 0 | 0 | -4,700 |
| (ii) Grantiau | 86,077 | -86,077 | 0 | 0 | 0 |
| (iii) Benthyca â chymorth | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| (iv) Taliadau a godir yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru | 140 | 0 | -97,957 | 0 | -97,817 |
| (v) Arall | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm yr addasiadau yng Nghynnig y Gyllideb Atodol** | **477,033** | **285,641** | **13,794** | **19,465** | **795,933** |
| - Swyddfa Cymru | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| - Benthyca | 0 | 20,000 | 0 | -20,000 | 0 |
| - Cronfa wrth gefn heb ei chlustnodi | -77,400 | 53,288 | 0 | 0 | -24,112 |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir (Bloc)** | **399,633** | **358,929** | **13,794** | **-535** | **771,821** |

## *Tabl 3: Cysoni Adnoddau y Gofynnir amdanynt yn y Gyllideb Atodol hon*

| | 2017-18 (£000) | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **DEL Adnoddau** | **DEL Cyfalaf** | **AME Adnoddau** | **AME Cyfalaf** | **Cyfanswm** |
| *Adnoddau y gofynnir amdanynt yng Nghynnig y Gyllideb:* | | | | | |
| - Gweinidogion Cymru | 14,891,173 | 816,795 | 340,011 | 532,862 | 16,580,841 |
| - Comisiwn y Cynulliad | 52,045 | 500 | 1,900 | 0 | 54,445 |
| - Ombwdsmon | 4,203 | 25 | 20 | 0 | 4,248 |
| - Swyddfa Archwilio Cymru | 6,851 | 380 | 0 | 0 | 7,231 |
| **Cyfanswm yr adnoddau y gofynnir amdanynt yng Nghynnig y Gyllideb Atodol** | **14,954,272** | **817,700** | **341,931** | **532,862** | **16,646,765** |
| *Addasiadau:* | | | | | |
| (i) Defnydd adnoddau gan Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru | 49,858 | 0 | 10,913 | 0 | 60,771 |
| (ii) Grantiau | -869,175 | 869,175 | 0 | 0 | 0 |
| (iii) Benthyca â chymorth | 0 | 88,800 | 0 | 0 | 88,800 |
| (iv) Taliadau a godir yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru | 2,483 | 104 | 961,043 | 0 | 963,630 |
| (v) Arall | 14,561 | 0 | 0 | 0 | 14,561 |
| **Cyfanswm Gwariant a Reolir – Gweinidogion Cymru a Chyrff a Noddir yn Uniongyrchol** | **14,151,999** | **1,775,779** | **1,313,887** | **532,862** | **17,774,527** |
| - Swyddfa Cymru | 4,560 | 30 | 0 | 0 | 4,590 |
| - Benthyca | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| - Cronfa wrth gefn heb ei chlustnodi | 262,971 | 189,833 | 0 | 0 | 452,804 |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir (Bloc)** | **14,419,530** | **1,965,642** | **1,313,887** | **532,862** | **18,231,921** |

**Nodiadau:**

1. Mae cyfanswm gofyniad Llywodraeth Cymru am adnoddau yn gyfwerth â chyfanswm y dyraniadau a gynhwyswyd yn y Cwmpasau yn Atodlen 1.

2. Dywed Rheol Sefydlog 20.28(ii) y dylai cynnig y gyllideb flynyddol gynnwys yr adnoddau y mae’r Trysorlys yn cytuno arnynt ar gyfer cyllideb bloc Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r cynnig yn ymdrin â hi. Mae Atodlen 6 yn bodloni'r gofyniad hwn.

3. Dywed Rheol Sefydlog 20.28(iii) fod yn rhaid i gynnig y gyllideb flynyddol gynnwys cysoniad rhwng yr adnoddau a ddyrannwyd i gyllideb bloc Cymru gan y Trysorlys a'r adnoddau sydd i'w hawdurdodi i'w defnyddio yng nghynnig y gyllideb. Mae Atodlen 6 yn bodloni'r gofyniad hwn.

4. Mae'r atodlenni uchod yn dangos amrywiadau a awdurdodwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol o dan Adran 126 o'r Ddeddf a Rheol Sefydlog 20.31.

5. Dyma'r taliadau a godir yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru:

| **Eitem** | **2017-18 £000** |
|---|---|
| Taliadau i'r Gronfa Fenthyciadau Genedlaethol | 1,745 |
| Cyflogau a chostau pensiwn cysylltiedig y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd | 247 |
| Cyflogau a chostau pensiwn cysylltiedig yr Ombwdsmon | 200 |
| Cyflogau a chostau pensiwn cysylltiedig yr Archwilydd Cyffredinol | 206 |
| Cyflogau a chostau pensiwn cysylltiedig Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru | 29 |
| Cyflogau a chostau pensiwn cysylltiedig y Comisiynydd Safonau | 20 |
| Costau is-etholiad | 140 |
| Ardrethi Annomestig Cenedlaethol y gellir eu hailddosbarthu | 961,043 |
| **Cyfanswm** | **963,630** |

## Atodlen 7: Cysoni'r llif arian parod i Gronfa Gyfunol Cymru â'r arian parod y gofynnir amdano yng Nghynnig y Gyllideb (£000)

| | Darpariaeth Flaenorol 2017-18 | Newidiadau | Darpariaeth Ddiwygiedig 2017-18 |
|---|---|---|---|
| **Amcangyfrif o'r symiau net i'w talu i Weinidogion Cymru:** | | | |
| Grant i'w dalu gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru i Gronfa Gyfunol Cymru o dan Adran 118 (1) | 14,300,314 | 488,578 | 14,788,892 |
| Arian wedi'i fenthyca o'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol ac oddi wrth fanciau masnachol o dan Adran 121 | 20,000 | -20,000 | 0 |
| Taliadau gan Adrannau Llywodraeth eraill | 1,140,187 | 68,678 | 1,208,865 |
| Taliadau o ffynonellau eraill | 2,273,965 | -384,539 | 1,889,426 |
| Llai y symiau a awdurdodwyd i'w cadw gan Weinidogion Cymru a Chyrff a Gyllidir yn Uniongyrchol | -1,214,965 | 286,582 | -928,383 |
| **Amcangyfrif o'r symiau i'w talu i Weinidogion Cymru** | **16,519,501** | **439,299** | **16,958,800** |
| Dosbarthwyd fel a ganlyn: | | | |
| - Gweinidogion Cymru | 15,029,659 | 626,844 | 15,656,503 |
| - Comisiwn y Cynulliad | 50,245 | 0 | 50,245 |
| - Ombwdsmon | 4,210 | 0 | 4,210 |
| - Swyddfa Archwilio Cymru | 6,706 | 325 | 7,031 |
| **Arian a ryddheir o Gronfa Gyfunol Cymru yn y Cynnig** | **15,090,820** | **627,169** | **15,717,989** |
| Taliadau a godir yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru | 1,061,447 | -97,817 | 963,630 |
| Cronfeydd heb eu clustnodi | 367,234 | -32,386 | 334,848 |
| Llai y symiau a delir yn uniongyrchol i Gronfa Gyfunol Cymru | 0 | -57,667 | -57,667 |
| **Amcangyfrif o Gyfanswm y Taliadau** | **16,519,501** | **439,299** | **16,958,800** |

**Nodiadau:**

1. Mae Adran 125(3) o'r Ddeddf yn datgan bod yn rhaid i gynnig y gyllideb flynyddol gael ei ategu gan ddatganiad ysgrifenedig gan y Gweinidogion, yn dangos:

   i. cyfanswm y taliadau y maent yn amcangyfrif a wneir ar gyfer y flwyddyn ariannol o dan Adran 118(1);

ii. cyfanswm y taliadau y maent yn amcangyfrif a wneir i Weinidogion Cymru, y Prif Weinidog neu'r Cwnsler Cyffredinol ar gyfer y flwyddyn ariannol gan Weinidogion y Goron ac adrannau'r llywodraeth; a

iii. cyfanswm y taliadau y maent yn amcangyfrif a wneir i Weinidogion Cymru, y Prif Weinidog neu'r Cwnsler Cyffredinol ar gyfer y flwyddyn ariannol heblaw gan Weinidogion y Goron neu adrannau'r llywodraeth.

2. Mae'r atodlen uchod yn dangos amrywiadau yn y symiau hyn fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 20.31

**Chwefror 2018**

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 6

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon